# Hunanasesu Perfformiad: Ebrill 2025 - Medi 2025

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad yn erbyn Amcanion ein Cynllun Corfforaethol a'n meysydd llywodraethu rhwng Ebrill 2025 a Medi 2025.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym ni hefyd yn fwy na pharod i ddarparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille, cysylltwch â’r Tîm Perfformiad a Gwella (mae’r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf).**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Rydym ni eisiau clywed eich barn!

Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch chi. A yw ein hamcanion hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym ni'n gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive! y mae Sign Solutions yn ei ddarparu – ewch i https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

### Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw'r dyfodol a hoffem ni glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

Hoffwch ni ar Facebook.

Ewch ar ein gwefan i gael gwybod am wasanaethau, yn cynnwys i weld ein Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad.

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

# Cynnwys


Canllaw cyflym i'n Fframwaith Rheoli Perfformiad ....5

Crynodeb o'r sefyllfa ....8

Nod 1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn ....9

Nod 2. Mae pobl yng Nghonwy yn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn ei werthfawrogi.....211

Nod 3. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau....30

Nod 4. Mae pobl yng Nghonwy yn gallu cael gafael ar lety fforddiadwy, priodol ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau ....50

Nod 5. Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel ....599

6. Atodol - Swyddogaethau llywodraethu....755

7. Camau gwella ....94

8. Cloi....95

## Canllaw cyflym i’n Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar Ganlyniadau'n Cyfrif. Mae Canlyniadau'n Cyfrif wedi’i seilio o gwmpas y pedair cydran ganlynol:

- **Canlyniad** - Nod yr ydym am ei gyflawni a fydd o fudd i bobl, y gymuned, neu'r sefydliad. Fel arfer, mae canlyniadau'n hirdymor ac yn canolbwyntio ar y cwsmer.
- **Dangosyddion** - Mesurau effaith sy'n cefnogi'r Canlyniad. Mae *dangosyddion* yn arwydd o ba mor agos yr ydym at gyflawni'r Canlyniad. Fodd bynnag, nid ydynt yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth. Mae mesurau boddhad yn fath o ddangosydd.
- **Mesurau perfformiad** - Mesurau ymdrech sy'n cefnogi'r Dangosyddion a'r Canlyniad. Mae mesurau perfformiad yn dweud wrthym ba mor dda yr ydym yn gwneud gyda'r gweithgaredd yr ydym yn ei gyflawni. Maent yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth.
- **Gweithgareddau**– Camau gweithredu, prosiectau neu raglenni gwaith a nodwyd i gefnogi'r Canlyniad. Maent yn cyflawni allbynnau a buddion yn y tymor byrrach i ganolig, gan gyfrannu ar y cyd at gyflawni'r Canlyniad tymor hwy.

### Targedau a Goddefiannau

- **Targedau** – Dylai ein targedau gynrychioli'n rhesymol ein huchelgais ar gyfer y mesur, gan fod yn realistig o fewn y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo, e.e. cyllideb, capasiti, ac ati.
- **Goddefiannau** - Mae ein trothwy goddefiant yn cynrychioli'r pwynt lle mae angen ymyrraeth i wella ein perfformiad. Lle rydym wedi nodi **Dim Goddefiant**, mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod y targed yn cael ei gyrraedd.

Wrth ddatblygu fframwaith ein Cynllun Corfforaethol, rydym ni wedi ceisio cynnwys mesurau a gyhoeddwyd yn genedlaethol y gallwn ni feincnodi ein hunain yn eu herbyn; mae ein targedau a’n goddefiannau’n cael eu llywio gan ddata perfformiad chwartel uchaf neu ganolrif. Dynodir y rhain gyda **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**. Lle nad oes unrhyw fesurau na data ar gael y gallwn gymharu ein hunain yn rhesymol â nhw (naill ai’n genedlaethol neu drwy grwpio cymharol), byddwn yn datblygu mesurau lleol ac yn cymryd barn leol ar yr hyn yr ydym yn teimlo sy’n pennu perfformiad da neu wael yn rhesymol. Dynodir y rhain gyda **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**. Mewn rhai achosion, nid yw’n bosibl nac

yn briodol gosod targedau, ond mae'r mesurau eu hunain yn dal i gyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol am berfformiad. Bydd y rhain wedi'u nodi fel **Cyfrif yn Unig**.

## Statws Perfformiad

Ar hyn o bryd rydym ni'n defnyddio dull tri lliw – coch, oren, gwyrdd – wrth fesur ein perfformiad a'n gweithgareddau. Ar gyfer diben yr adroddiad hwn mae ein hymagwedd i fesur prosiectau wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd, a hynny hefyd yn cyd-fynd ag adrodd ar ein system rheoli perfformiad (CAMMS). Pan fydd mesur yn cael ei nodi fel **Cyfrif yn Unig**, nid yw statws COG a dangosyddion o dueddiadau yn berthnasol.

### Ar gyfer mesurau

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu fod y targed wedi'i gyflawni.
- Mae statws **oren** yn golygu bod y perfformiad o fewn goddefiant i gwrdd â'i darged.
- Mae statws **coch** yn golygu bod perfformiad heb gyflawni ei darged a ddim o fewn goddefiant.

### Ar gyfer gweithgaredd (defnyddio methodoleg prosiect)

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu bod yr elfen hon ar y trywydd iawn.
- Mae statws **oren** yn golygu bod problem bosib wedi cael ei nodi.
- Mae statws **coch** yn golygu bod problem amlwg wedi'i nodi ac angen sylw.

Ar gyfer ein hadroddiad nesaf, rydym ni'n gobeithio y byddwn ni wedi newid i ddull pedwar lliw – coch, oren, melyn, gwyrdd – wrth ddadansoddi ein cynnydd yn erbyn mesuryddion perfformiad a gweithgareddau. Bydd hyn yn rhoi gwell cyd-destun ac mae'n gam cadarnhaol tuag at wella ein hadroddiadau rheoli perfformiad ymhellach.

## Disgrifiadau o dueddiadau

Mae ein hadroddiad yn cymharu'r pwynt data diweddar (sefyllfa derfynol) â'r cyfnod a oedd ar gael yn flaenorol. Mewn achos o fesurau bob chwe mis cronnus byddwn yn cymharu gyda'r un cyfnod (h.y. y mesurau canol blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau canol blwyddyn flaenorol, y mesurau diwedd blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau diwedd blwyddyn flaenorol). Nid yw'n disgrifio unrhyw symudiad neu newid yn y statws COG.

- Caiff **'Gwell'** ei ddefnyddio pan fo'r newid yn y canlyniad yn welliant. Pan mae canrannau neu niferoedd uwch yn ddymunol bydd y ffigwr yn uwch na'r ffigwr blaenorol.  Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.
- Mae **'yr un fath'** yn cael ei ddefnyddio pan na fydd newid yn yr alldro, gyda pherfformiad yn cyd-fynd â'r cyfnod blaenorol sydd ar gael.
- Mae **'gwaeth'** yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yn yr alldro yn dangos dirywiad.  Pan mae canrannau neu niferoedd is yn annymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.  Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.

## Crynodeb o'r Sefyllfa

Mae'r penodau isod yn darparu gwerthusiad o berfformiad a chrynodeb o weithgarwch a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025 i gefnogi Amcanion ein Cynllun Corfforaethol a swyddogaethau llywodraethu allweddol. Mae pob pennod yn cael ei gefnogi gan grynodeb o straeon newyddion sy'n berthnasol i'n perfformiad, crynodeb o eitemau wedi'u craffu neu gymeradwyo gan ein prif bwyllgorau a diweddariadau ar ein perfformiad yn erbyn mesurau a phrosiectau allweddol. Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Mae gwerthuso camau gweithredu wedi cael ei bennu gan statws ein gweithgareddau trwy ddefnyddio ein methodoleg prosiect.

**1. Cyngor Gwydn**

Mesurau: Coch: Tu allan i'r goddefiant
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**2. Yr Amgylchedd**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**3. Ffyniant a Dysg**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**4. Tai**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**5. Lles**

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**6. Atodol – Llywodraethu**

Mesurau: Gwyrdd: Wedi cwrdd â'r targed
Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

# Nod 1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 1

Mesurau: Coch: Tu allan i’r goddefiant

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 1.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Rydym yn falch o adrodd, rhwng mis Ebrill a mis Medi, fod nifer y dyddiau a gollwyd fesul aelod staff llawn amser yn sgil salwch wedi gostwng i 10.6 diwrnod, i lawr o 12.6 ar ddiwedd 2024 i 2025. Mae hwn yn arwydd cynnar da o welliant, sydd, gobeithio, yn adlewyrchu ein pwyslais diweddar ar les staff, gan gynnwys diwygiadau diweddar i'n polisi rheoli presenoldeb a’r adnoddau sydd ar gael i reolwyr.

Mae nifer y staff asiantaeth a reolwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi yn gyson â'r hyn y gwnaethom ni ei adrodd yn flaenorol, sef 131 o staff.

Yng nghanol 2025 i 2026, roedd 53% o’r hyn oedd yn cael ei ddweud amdanom ni fel Cyngor yn y cyfryngau yn gadarnhaol neu’n niwtral, i lawr o 80% yn y cyfnod diwethaf. Bu cynnydd mewn barn negyddol yn y cyfryngau yn dilyn newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a digwyddiadau fel cael gwared ar faneri Llansan Sior.

Saif balans ein Cronfa Gyffredinol fel cyfran o’r gyllideb net ar 2.4% ar ddiwedd 2024 i 2025, i fyny o 1% y flwyddyn flaenorol. Mae canran yr arbedion a ragwelwyd ac a gyflawnwyd ar gyfer 2024 i 2025 yn gyson â'r flwyddyn flaenorol sef 89%. Gostyngodd canran Treth y Cyngor a oedd yn ddyledus yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a gasglwyd ychydig islaw ein targed o 97%, wrth i ni gasglu 96.7% yn ystod 2024 i 2025. Mae hyn ychydig yn is na 97.1% y flwyddyn flaenorol, ond nid yw'r gostyngiad hwn yn anarferol yn y cyd-destun cenedlaethol a chyfradd casglu Conwy yw'r 4ydd uchaf yng Nghymru. Mae casglu ardrethi annomestig yn 2024 i 2025 hefyd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol sef 98.5% (i lawr ychydig o 98.9%).

Gostyngodd trosiant staff rhwng 2024 a 2025 i 9%, i lawr o 11% y flwyddyn flaenorol.

Rydym ni wedi cau ein Sgwrs y Sir yn ddiweddar: Mae’r Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bydd dangosyddion perthnasol i gefnogi'r nod hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn y tro nesaf.

Byddwn ni hefyd yn cyflwyno data arolwg staff ar Sgyrsiau Conwy ac yn cynnig hyfforddiant yn yr adroddiad nesaf.

Ar hyn o bryd mae 115 o staff yn archwilio'r defnydd o offer digidol newydd i gefnogi eu gwaith.

### 1.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y dyddiau gwaith/sifftiau amcangyfrifedig fesul FTE a gollwyd o ganlyniad i salwch – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed (amcangyfrif): 10.5; Trothwy Goddefiant: 12** | 12.04<br>Coch<br>Gwaeth | 11.92 (amcangyfrif diwedd blwyddyn)<br>Coch<br>Gwaeth | 12.68<br>Coch<br>Gwaeth | 10.63 (amcangyfrif diwedd blwyddyn)<br>Oren<br>Gwell |
| Nifer y staff asiantaeth (a reolir drwy matrix) – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 143 | 149 | 131 | 131 |
| Canran y crybwylliadau yn y cyfryngau ynghylch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a oedd yn gadarnhaol neu'n niwtral - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 65%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 75.75%<br>Gwyrdd<br>Da | 80%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 52.5%<br>Coch<br>Gwaeth |

### 1.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol fel cyfran o'r gyllideb net – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 5%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 1.0%<br>Coch<br>Nid yw'r duedd yn berthnasol | 2.4%<br>Coch<br>Gwell |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran yr arbedion a ragwelwyd ac a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 89.1%<br>Nid yw’r statws yn berthnasol<br>Nid yw’r duedd yn berthnasol | 89.4%<br>Nid yw’r statws yn berthnasol<br>Gwell |
| Canran Treth y Cyngor sy'n ddyledus yn y flwyddyn ariannol a gasglwyd gan y Cyngor – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 97%; Trothwy Goddefiant: Chwartel Uchaf yng Nghymru** | 97.10%<br>Gwyrdd<br>Da | 96.70%<br>Oren<br>Gwaeth |
| Canran y Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a gafwyd gan y Cyngor – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 97.5%; Trothwy Goddefiant: Chwartel Uchaf yng Nghymru** | 98.90%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 98.41%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Trosiant Staff (%) – **Cyfrif yn unig** | 10.85% | 8.66% |
| Sgwrs y Sir: Dangosydd Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid – **yn cael ei ddatblygu** | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 1.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y staff sy'n fodlon eu bod yn cael sgwrs reolaidd ac ystyrlon gyda'u rheolwr atebol – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 50%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Disgwylir data ym mis Rhagfyr |
| Canran y staff sy'n fodlon bod yr hyfforddiant a gawsant drwy Academi Ddysgu Conwy yn ystod y flwyddyn wedi ychwanegu gwerth – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 75%; Trothwy Goddefiant: 50%** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Disgwylir data ym mis Rhagfyr |

### 1.1.4. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial – Nifer y defnyddwyr sy'n manteisio ar dechnoleg i wneud rolau'n fwy effeithlon – **Cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 115 |

## 1.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deunaw o weithgareddau gwella wedi'u rhestru yn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae 17 ar y trywydd iawn, ac mae un o fewn y goddefiant.

### 1.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Strategaeth Wydnwch | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn mewnbwn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, cymeradwywyd ein Strategaeth Gwydnwch 2025 i 2030 gan y Cabinet ym mis Medi. Mae'r Strategaeth yn ymgorffori camau gweithredu rhagorol o'r Cynllun Gwydnwch, a bydd Bwrdd y Rhaglen Gwydnwch yn dechrau ym mis Hydref 2025 a bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i ddemocratiaeth. |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Cynllun Gwytnwch | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gwydnwch i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac wedi hynny fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mai, ac mae 8 o'r 17 o gamau gweithredu bellach wedi'u cwblhau'n rhannol neu'n llawn. Mae'r adroddiad yn nodi ein cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a gymerwyd i gefnogi gwydnwch ariannol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ein bod ni'n parhau i weithio gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, ac yn cwmpasu gwaith a fydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i Oedolion a Phobl Hŷn, yn ogystal â gwaith sy'n ymwneud ag Addysg ac Ysgolion. |
| **Camau Gweithredu Hunanasesu:** Gweithredu proses arolwg staff newydd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni'n falch o fod wedi lansio ein harolwg staff ddiwedd mis Medi. Rydym ni'n gobeithio y bydd y dull mwy cryno hwn yn gosod sylfaen dda ar gyfer gwaith arolwg staff yn y dyfodol. Mae'n gwbl ddienw, a chaiff staff eu hannog i ddweud eu dweud erbyn 6 Tachwedd. Bydd dadansoddiad o'r canlyniadau'n cael ei rannu a bydd uwch reolwyr yn datblygu cynllun gweithredu i ymateb i unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Conwy Gynhwysol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ystod y cyfnod hwn, cefnogwyd datblygiad staff drwy gyfleoedd dysgu cymysg, gan gynnwys sesiynau ar ymwybyddiaeth o hiliaeth, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a chysyniadau sylfaenol cynhwysiant. Mae modiwlau ar-lein fel Diwylliant Hyfforddi a chyrsiau e-ddysgu Gwrth-hiliaeth Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ehangu mynediad, tra bod digwyddiadau fel sgyrsiau Menopos, Wythnos Ffoaduriaid, a dathlu 30 mlynedd ers sefydlu Bawso wedi annog rhwydweithio a rhannu syniadau. Mae cydweithio mewnol ac allanol, gan gynnwys gyda'r tîm cydlyniant cymunedol rhanbarthol, wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth a llunio cyfeiriad cyson a chynhwysol.<br><br>Mae gwaith rhagweithiol a wnaed gan y Gwasanaethau Ieuenctid (Gwobr Baner yr Enfys) ac Economi a Diwylliant wedi bod yn hanfodol wrth godi ymwybyddiaeth i gefnogi hawliau LHDTC+, ac yr ydym ni wrth ein bodd bod gennym ni rwydwaith staff yn awr. Mae negeseuon allweddol o gefnogaeth ac undod a chodi ymwybyddiaeth yn rheolaidd o ddiwrnodau a digwyddiadau diwylliannol arwyddocaol yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae prosiectau a mentrau presennol (e.e. prosiect IMPACT ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, Gwybodaeth am Gyflogaeth, prosiect Recriwtio cam 2, Gweithgor Gwrth-Hiliaeth) yn rhoi cyfle i wneud gwaith â ffocws i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae unigolion a grwpiau ymylol yn eu hwynebu.<br><br>Mae adolygiad o'n polisïau a'n harferion drwy safbwynt cynhwysol, fel ein polisïau gwrth-aflonyddu a recriwtio, ac adolygiad o Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau, a bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i reolwyr i sicrhau eu bod nhw'n cael eu gweithredu'n deg. |
| Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r polisi cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd wedi'i roi ar waith ers mis Medi 2025. Bu cynnydd mewn apeliadau ac ymholiadau ynghylch penderfyniadau'n ymwneud â chymhwysedd o ganlyniad i newidiadau yn y polisi; fodd bynnag, mae'r polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson. Mae'r broses recriwtio ar gyfer Asesydd Teithio wedi dod i ben a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau'r swydd ddiwedd mis Hydref 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Taflenni Amser Corfforaethol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae’r tîm prosiect ar fin cwblhau profion diwydrwydd dyladwy ac maen nhw’n gweithio'n agos â datblygwr iTrent. Dylai cynllun amlinellol ar gyfer mynd yn fyw gan ddefnyddio dull graddol, gwasanaeth wrth wasanaeth, ddechrau yn y flwyddyn newydd yn amodol ar gwblhau'r profion diwydrwydd dyladwy. |
| Strategaeth Pobl | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Pobl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet ym mis Ebrill, a bydd adroddiad cynnydd ychwanegol yn cael ei gyflwyno i ddemocratiaeth yn fuan. Mae uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys cynnydd cadarnhaol â'n hadolygiad o bolisïau AD; digideiddio'r broses cyfweliadau ymadael; cychwyn prosiect IMPACT ar gyfer recriwtio hygyrch; a lansio Fframwaith Cynllunio’r Gweithlu. Rydym ni hefyd wedi dechrau cyfarfodydd ein his-grŵp gwrth-hiliaeth; ac wedi adolygu’r cyfnod sefydlu corfforaethol ac ymsefydlu yn y gwasanaeth.<br><br>Mae ymdrechion yn parhau i gefnogi datblygiad gweithlu dwyieithog, gan gynnwys amrywiaeth o gyrsiau iaith Gymraeg a Chynllun Sgwrsio. Yn rhan o'r strategaeth TGCh ddigidol, mae hyfforddiant sgiliau digidol yn cael ei ddatblygu a'i dreialu i gefnogi gwelliannau effeithlonrwydd. Mae'r dull o greu swyddi graddfa gyrfa i ddarparu cyfleoedd dilyniant gyrfa hefyd wedi'i weithredu'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o wasanaethau. Mae rhaglen ar gyfer datblygu arweinwyr uwch ar y gweill; ac mae ymdrechion yn parhau i wella ymgysylltiad staff a chynnal cysylltiadau da ag undebau llafur, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol a chyfarfodydd rheolaidd ag undebau llafur. |
| Gweithredu Systemau Ariannol Craidd Newydd (Technology One) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Cyllidebu a Rhagweld yn yr amgylchedd 'Byw', ac mae’r profion terfynol ar fin cael eu cwblhau. Mae'r adroddiad Monitro Cyllideb hefyd wedi'i ddrafftio. Mae profi'r Modiwl Contractau bron â'i gwblhau. Mae problemau ag un rhyngwyneb i'r modiwl ar hyn o bryd, ac mae T1 yn y broses o’u datrys. Disgwylir i’r Modiwl Contractau gael ei lansio erbyn diwedd mis Hydref 2025. Disgwylir i'r modiwl cyllideb a rhagweld fynd yn fyw yn raddol o fis Tachwedd 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Adolygiad o Drefniadau Democrataidd i symleiddio'n broses o wneud penderfyniadau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn adolygiad o'n swyddogaeth graffu a gynhaliwyd gan weithgor o aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo argymhellion a chynllun gweithredu ym mis Mai.<br>Mae Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu hadolygu a byddan nhw'n mynd trwy'r broses ddemocrataidd yn nhymor yr hydref 2025.<br>Bydd adolygiad o'n Rheoliadau Ariannol a fydd yn diweddaru gwahanol ddirprwyaethau. Bydd hyn yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd yn ystod mis Mawrth 2026. |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Strategaeth Rheoli Asedau | Oren<br>O fewn goddefiant | Ym mis Mai, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Gwaredu a Rheoli Asedau drafft ar gyfer cyfnod prawf. Dyma gam cyntaf y broses o ddatblygu Strategaeth Rheoli Asedau newydd, ac mae wedi'i chynllunio i symleiddio ein proses a dod â lefelau dirprwyo yn agosach at y rhai a amlinellir yn ein Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Bydd y polisi'n cael ei fonitro gan y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Asedau a bydd yn cael ei adolygu ym mis Ionawr 2026 ochr yn ochr â'r Strategaeth Rheoli Asedau wedi'i diweddaru. |
| Strategaeth Gofod Swyddfa (Rhan 2) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Daeth y cam olaf wrth weithredu ein datrysiad Un Swyddfa i ben ym mis Mai a chafodd allwedd Bodlondeb ei throsglwyddo i Quidos Investments Limited, ar ôl llofnodi prydles 250 o flynyddoedd. Mae hyn yn dod â'n holl wasanaethau swyddfa a swyddogaethau democrataidd dan un to a bydd yn galluogi dyfodol cynaliadwy i Fodlondeb, ynghyd â chyfleoedd datblygu economaidd lleol. Cafodd y gwaith o ailfodelu Coed Pella ei gwblhau ym mis Mehefin. Mae darpariaeth siopau democrataidd newydd yng Nghoed Pella a chanolfan ddata newydd wedi'u cynllunio i'w cwblhau cyn diwedd 2025. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Strategaeth Gyfalaf Tymor Canolig | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r strategaeth ddrafft yng nghyfnodau cynnar ei datblygiad, ac mae gwaith yn parhau i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â chynlluniau cysylltiedig a'r Rhaglen Gyfalaf. Yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Asedau, trefnwyd cyfarfod rhwng Cyllid a Phrisiwr y Sir a Rheolwr Asedau i gydlynu cynlluniau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag asedau sy'n cael eu datblygu gan wasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf eto. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod pob cynnig gwasanaeth perthnasol yn cael ei nodi a'i gysoni â gwybodaeth a gedwir yn yr Adran Ystadau, gan roi trosolwg cynhwysfawr i aelodau o gynlluniau sydd ar y gweill. |
| Gweithredu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Llywodraeth Cymru yn dal i ymgynghori ar y ddeddfwriaeth ddrafft sy'n ymwneud ag agweddau caffael y Ddeddf. Mae'r rhain yn cau ym mis Hydref a mis Rhagfyr.<br>Drwy gydweithio â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, yr ydym ni wedi cytuno ar set o ymddygiadau craidd, ac wedi cwblhau Hunanasesiad y Bartneriaeth Gymdeithasol ac wedi cytuno ar feysydd i'w gwella. Mae Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bartneriaeth Gymdeithasol hefyd wedi'i gwblhau, ei gyhoeddi, a'i rannu â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru. |
| Strategaeth Gaffael | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd yr ail Adroddiad Caffael Blynyddol (ar gyfer 2024 i 2025) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2025. Bydd hwn yn darparu crynodeb o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau allweddol a restrir yn y strategaeth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Trawsnewid Digidol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Fy Nghyfrif Conwy wedi cael ei lansio ac mae tua 7000 o drigolion wedi cofrestru hyd yn hyn, sy'n ein helpu ni i gadw a rhannu gwybodaeth. Mae prosesau ar-lein newydd yn cynnwys ceisiadau am gludiant addysg ôl-16, cofrestru / talu am wasanaethau cerddoriaeth, ceisiadau am ryddhad ardrethi, ymgynghori â llyfrgelloedd, a phrosesau mewnol fel datgan cysylltiad personol, adolygiadau i unigolion sy'n gadael gofal, ac arolygon teithio staff.<br>Mae bron i 1 miliwn o drafodion digidol wedi cael eu prosesu gan ddefnyddio cyfleusterau a ddatblygwyd yn fewnol i ategu gwasanaethau ar-lein a gynhelir yn allanol, fel Ap Ffit, Rhowch wybod i ni, Archebu Tocynnau Venue Cymru, Derbyniadau Ysgol, Cofnodi Amser, Gwyliau a Hyfforddiant, a'r porth Refeniw a Budd-daliadau.<br>Rydym ni'n parhau i ymchwilio a chaffael atebion deallusrwydd artiffisial moesegol i helpu i fynd i'r afael â phwysau o ran capasiti, cyflawni effeithlonrwydd, gwella prosesau, neu sicrhau arbedion / incwm. Mae enghreifftiau'n cynnwys datrysiad i gymryd nodiadau a chofnodion cyfarfodydd yn rhannol awtomatig mewn meysydd fel gofal cymdeithasol a thai, a datrysiad i roi gwybod i drigolion incwm isel am eu cymhwysedd i gael budd-daliadau. Rydym ni hefyd yn parhau i fanteisio ar gynnyrch fel Copilot i drawsgrifio cyfarfodydd a darparu diweddariadau cyflym ar lawer iawn o wybodaeth a data yn ddiogel. Mae awtomeiddio prosesau robotig hefyd yn cael ei ddefnyddio i fudo data o systemau TG mawr i gymwysiadau wedi'u moderneiddio ac i ddisodli mewnbynnu data â llaw i rai systemau. |
| Trawsnewid Gofal Cymdeithasol ac Addysg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r rhaglen integreiddio yn dod i ben ar ôl cynllun 10 mlynedd llwyddiannus a bydd yn cael ei lleihau o ran maint wrth i bethau fynd rhagddynt yn ôl yr arfer. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gweithredu model Gwasanaeth Gwella Ysgolion newydd sydd â'r nod o wella addysgu, arweinyddiaeth a chanlyniadau disgyblion, a bydd y prosiect hwn yn awr yn dod i ben. Mae rhaglen drawsnewid y plant bellach wedi dod i ben a bydd cyfnod o ymgorffori a sicrhau bod y datblygiadau'n cyflawni eu huchelgais yn cael ei drosglwyddo'n ôl i arweinwyr y gwasanaeth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyd-ddylunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae cynnydd wedi'i wneud, drwy weithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol i ddatblygu a chytuno ar fanyleb gwasanaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol, a dysgu o arferion da mewn Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru. Rydym ni hefyd wedi dechrau dadansoddiad o anghenion i ddeall sut y gall y gwasanaeth hwn gefnogi ein gwasanaethau a'n strwythur presennol orau. Y nod yw bod yn barod i wahodd cynigion tendro ar gyfer gwasanaeth newydd tua mis Mawrth 2026. |
| **Camau Gweithredu Hunanasesu:** Cryfhau pecynnau gwaith rheolwyr atebol a chefnogaeth gyffredinol i les staff i wella presenoldeb. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn ymgynghori ag Undebau Llafur, gwnaeth y Cabinet gymeradwyo polisi rheoli presenoldeb diwygiedig ym mis Awst i gefnogi lles staff. Mae'r prif ddiwygiadau yn sicrhau mwy o gysondeb â'n dull Sgwrs Conwy o gyfarfodydd un-i-un rheolaidd, lle caiff presenoldeb rhagorol ei gydnabod. Mae'r diwygiadau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw cofnodion yn gyfredol a monitro data yn rhagweithiol. Eglurwyd hefyd, os canfuwyd bod y cynllun wedi'i gamddefnyddio, y gallai'r Cyngor ddod â chyflogaeth i ben cyn diwedd yr hawl i dâl salwch. Mae'r polisi diwygiedig yn cryfhau cyfrifoldeb rheolwyr i reoli absenoldebau hirdymor, a bydd adnoddau ar gael i helpu rheolwyr i gefnogi staff sy'n mynd trwy amgylchiadau cymhleth, gan gynnwys triniaeth canser, profedigaeth a materion ariannol. Cafodd y polisi ei adolygu mewn ymgynghoriad ag Undebau Llafur. |

## 1.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 1.3.1. Diweddariad Ariannol

Cyflwynwyd diweddariad ariannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai a mis Mehefin o'r heriau sy'n ein hwynebu ein Cyngor, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ymateb iddynt. Ym mis Awst, cafodd y Cabinet adroddiadau hefyd ar ein sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2024 i 2025 ac adroddiad monitro cyllideb refeniw ar gyfer chwarter un. Rhannwyd y rhain hefyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Awst. Mae'r adroddiad yn dangos ein bod ni eisoes yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol yn y flwyddyn ariannol hon o ganlyniad i alw sylweddol ar wasanaethau a phwysau chwyddiant parhaus. Mae'r gwasanaethau'n ymwybodol iawn o'r angen i weithio o fewn eu cyllideb ac

maent yn cymryd camau i reoli'r sefyllfa gyllidebol. Mae trefniadau hefyd yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i weithredu rheolyddion gwariant cadarn.

### 1.3.2. Gosod y Gyllideb ar gyfer 2026 i 2027

Mae'n ofynnol i bob cyngor osod cyllideb gytbwys flynyddol i sicrhau nad yw'r gwariant a gynlluniwyd yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Medi, cymeradwyodd y Cabinet y Fframwaith Cynllunio Busnes ar gyfer 2026 i 2027, sy'n nodi'r broses y bydd y Cyngor yn ei dilyn i osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n caniatáu cyflwyno achosion busnes i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol, yn ogystal ag adnabod cynigion lleihau cyllideb yn seiliedig ar y rhagolygon ariannol.

### 1.3.3. Datganiad Cyfrifon Drafft

Mae'n ofyniad statudol ein bod ni'n cynhyrchu Datganiad Cyfrifon blynyddol sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifyddu cymeradwy ac yn adrodd ar ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r trafodion yn ystod y flwyddyn honno. Adroddwyd ar y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2024 i 2025 (yn amodol ar yr her archwilio allanol) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi. Mae'r adroddiad diweddaraf yn nodi bod ein cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi cynyddu o £2.772 miliwn i £7.01 miliwn sy'n adlewyrchu'r alldro dros ben terfynol ar ddiwedd y flwyddyn o £0.345 miliwn; heb fod angen y defnydd arfaethedig o £0.407 miliwn o falansau i gefnogi Cyllideb Refeniw 2024 i 2025; trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn a gedwid yn flaenorol mewn gwasanaethau; a'r trosglwyddiad bwriadol o £2.362 miliwn o gostau cyllido cyfalaf wedi'u cyllidebu nad oedd ei angen yn llawn. Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd priodol i gynyddu balans ein cronfa. Mae cyfraddau casglu Treth y Cyngor yn dal i fod yn gryf, sef 96.7% a'r bedwaredd gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru. Gwelwyd gostyngiad mewn balansau ysgolion o £7.061 miliwn i £4.381 miliwn yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r adroddiad gan yr archwilwyr yn cael eu hadrodd i'r aelodau cyn i gymeradwyaeth ffurfiol gael ei rhoi.

### 1.3.4. Cyllidebau Uno Ysgolion

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Gorffennaf yn nodi cyngor proffesiynol gan y Swyddog Ariannol Statudol (S151) a'r Swyddog Monitro ar argymhelliad cyffredinol a wnaed i ail-fuddsoddi arbedion a gafwyd o uno ysgolion mewn cyllidebau ysgolion. Ni chafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo gan y Cabinet yn

dilyn cyngor y Prif Swyddog Ariannol. Rhoddodd yr adroddiad hwn arweiniad ychwanegol i'r pwyllgor ar y rhesymau dros gynghori yn erbyn cymeradwyo'r argymhelliad.

### 1.3.5. Ail-strwythuro Rheoli Lleoliadau

Ym mis Awst, yn rhan o waith sefydliadol parhaus i sicrhau bod ein gwasanaethau'n wydn ac yn addas at y diben, derbyniodd a chymeradwyodd y Cabinet broses ailstrwythuro o fewn Rheoli Lleoliadau (Gwasanaeth yr Economi a Diwylliant) ac awdurdododd recriwtio a pharu swyddi yn unol â phrotocolau priodol.

# Nod 2. Mae pobl yng Nghonwy yn edrych ar ôl yr amgylchedd ac yn ei werthfawrogi.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 2

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 2.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Mae canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd wedi cynyddu i 70.7% yn ystod 2024 i 2025, o'i gymharu â 69.6% y flwyddyn flaenorol.

Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd wedi cynyddu o 1,633 yn 2023 i 2024 i 1,774 yn 2024 i 2025. Yn flaenorol, roeddem ni yn y trydydd chwartel ar gyfer y mesur hwn, sef yr 8fed gorau yng Nghymru. Rydym ni'n aros i'r data cenedlaethol gael ei gyhoeddi i weld sut yr ydym ni'n cymharu yn 2024 i 2025. Mae Gwasanaethau Rheoleiddio yn gorfodi lle mae trosedd wedi'i gyflawni a bod digon o dystiolaeth i erlyn. Yn ogystal â hyn, mae cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi caniatáu inni brynu camerâu symudol fel rhan o brosiect Mannau Agored Gwell, a gellir eu defnyddio mewn ardaloedd problemus fel ataliad ac offeryn gorfodi i adnabod troseddwyr.

Nifer yr eiddo ychwanegol a ddiogelwyd rhag y risg o lifogydd yn ystod 2024 i 2025 oedd 1,516. Darperir diweddariad ar Gynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd yn y tabl gweithgareddau isod.

Rydym ni'n cynnal a chadw tua 1,116 milltir o ffyrdd ar draws y Sir. Yn ystod mis Ebrill a mis Medi 2025, dangosodd arolwg sganio annibynnol fod 6.8% o ffyrdd A, 7.2% o ffyrdd B, a 15.3% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael. O ganlyniad i broblem genedlaethol â'r cwmni sy'n cynnal yr arolygon sganio ffyrdd, nid oedd data ar gyflwr y ffyrdd ar gael ar gyfer 2023 i 2024 er mwyn cymharu.

Rhwng mis Ebrill a mis Mawrth, nodwyd cyfanswm o 494 o ddiffygion diogelwch ar ffyrdd a phalmentydd, a chwblhawyd 84% ohonynt o fewn yr amser targed, i lawr o 90% y flwyddyn flaenorol.

Rydym ni wedi cau ein Sgwrs y Sir yn ddiweddar: Mae'r Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bydd dangosyddion perthnasol i gefnogi'r nod hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn y tro nesaf.

Mae canran y strydoedd sy'n lân wedi cynyddu o 96% ar ddiwedd 2024 i 2025 i 100% o ganol 2025 i 2026. Cafodd cyfanswm o 97 o strydoedd eu harchwilio rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, o'i gymharu â 207 o strydoedd y flwyddyn flaenorol (er bod hyn yn cynnwys archwiliadau gan Cadwch Gymru'n Daclus nad ydynt bellach yn cynnal archwiliadau ar gyfer awdurdodau lleol).

Ar gyfer 2024 i 2025 gwnaethom ni gyflawni gostyngiad o 19.8% yn ein hallyriadau carbon (heb gynnwys y gadwyn gyflenwi) o'i gymharu â'n blwyddyn sylfaen. Mae'r gostyngiad mewn allyriadau yn ganlyniad i waith parhaus Rhaglen Her yr Hinsawdd. Ar gyfer allyriadau carbon sy'n cynnwys y gadwyn gyflenwi, yr ydym ni wedi gweld cynnydd o 25.8% o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen. Mae'r cynnydd mewn allyriadau yn ganlyniad i gynnwys gwariant cyfalaf yn y data cadwyn gyflenwi ar gyfer 2024 i 2025 nad yw wedi'i gynnwys o'r blaen. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu yn yr Adroddiad Perfformiad Sero Net.

### 2.1.1. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 70%; Trothwy Goddefiant: 5%** | 69.6%<br>Oren<br>Gwell | 70.7%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gofnodwyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 1,663<br>Coch<br>Yr un fath | 1,774<br>Aros am ddata cenedlaethol<br>Gwaeth |
| Nifer yr eiddo lle mae'r risg o lifogydd wedi'i leihau yn dilyn gweithredu mesurau amddiffyn rhag llifogydd – **Cyfrif yn Unig** | 604 | 1,516 |
| Canran ffyrdd A mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 4%; Trothwy Goddefiant: 4.8%** | Dim data ar gyfer 2023 i 2024 | 6.78%<br>Coch<br>Nid yw'r duedd yn berthnasol |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran ffyrdd B mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** <br> **Targed: 7.5%; Trothwy Goddefiant: 8.25%** | Dim data ar gyfer 2023 i 2024 | 7.20% <br> Gwyrdd <br> Nid yw'r duedd yn berthnasol |
| Canran ffyrdd C mewn cyflwr gwael cyffredinol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** <br> **Targed: 15%; Trothwy Goddefiant: 16.5%** | Dim data ar gyfer 2023 i 2024 | 15.35% <br> Oren <br> Nid yw'r duedd yn berthnasol |
| Canran y diffygion diogelwch mewn ffyrdd a phalmentydd a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol** <br> **Targed: 90%; Trothwy Goddefiant: 85%** | 90.02% <br> Nid yw'r statws yn berthnasol <br> Nid yw'r duedd yn berthnasol | 84.41% <br> Coch <br> Gwaeth |
| Sgwrs y Sir: Dangosydd Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid – **yn cael ei ddatblygu** | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 2.1.2. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y strydoedd a gynhelir gan yr awdurdod lleol sy'n lân – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** <br> **Targed: 90%; Trothwy Goddefiant: 85%** | 98.64% <br> Gwyrdd <br> Gwell | 94.20% <br> Gwyrdd <br> Gwaeth | 96.18% <br> Gwyrdd <br> Gwell | 100% <br> Gwyrdd <br> Gwell |

### 2.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi (2019 i 2020) - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** <br> **Targed: -100% (0 erbyn 2030); Trothwy Goddefiant: I'w gadarnhau** | -19% <br> Coch <br> Gwaeth | +25.83% <br> Coch <br> Gwaeth |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen, ac eithrio'r gadwyn gyflenwi (2019 i 2020) - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** **Targed: -100% (0 erbyn 2030); Trothwy Goddefiant: I'w gadarnhau** | -18% Coch Gwell | -19.83% Coch Gwell |

## 2.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deg cam gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae dau o fewn goddefiant, ac mae'r wyth sy'n weddill ar y trywydd iawn.

### 2.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Rhaglen Her yr Hinsawdd | Oren O fewn goddefiant | Ym mis Mehefin, dyfarnodd y Cabinet y contract ar gyfer y prosiect datgarboneiddio yng Nghanolfan Hamdden Abergele ar gyfer gwaith i leihau allyriadau carbon, gan gynnwys datgarboneiddio'r system wresogi a gosod paneli solar. Mae hyn yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer cyllid grant 2025 i 2026 gan Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon ymhellach o adeiladau yr ydym ni'n berchen arnynt ac yn eu gweithredu. |
| Rhaglen Isadeiledd Amgylcheddol | Gwyrdd Ar y trywydd iawn | Rhaglen barhaus o brosiectau isadeiledd mawr a gyflawnir o dan 5 is-raglen: Cronfa Gludiant Ffyniant Bro; Amwynderau / Cyfleusterau; Amgylchedd; Amddiffyn Arfordirol a rhag Llifogydd; Gwelliannau Asedau Priffyrdd. Mae tua 29 o brosiectau byw yn cyflawni gwaith gwerth £100 miliwn. |
| Prosiect Trosglwyddo Gwastraff | Gwyrdd Ar y trywydd iawn | Cafodd Strategaeth Gwastraff ac Adnoddau drafft Conwy a chynlluniau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill, a'u cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein blaenoriaethau a'n hamcanion tan 2030 i gyflawni ein gweledigaeth o sicrhau gwasanaeth gwydn, sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, sy'n effeithlon yn economaidd, ac sy'n awyddus i leihau gwastraff, ailgylchu mwy, a bod yn garbon niwtral. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae cadwraeth bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau a strategaethau presennol, fel Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn; Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno; a Llawlyfr Cynnal a Chadw Coed. Rydym ni wedi llwyddo i sicrhau cyfleoedd ariannu i greu cynefinoedd, ac ar gyfer mesurau adfer a gwella ar draws tir sy'n cael ei reoli gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cyllid grant dros y ddwy flynedd ariannol nesaf wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau cyfalaf naturiol, sy'n gysylltiedig â chreu Rhwydweithiau Gwyrdd Conwy. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar arolygu a mapio; addysg ac uwchsgilio; systemau draenio cynaliadwy; rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol; prosiectau peillwyr; ymyriadau bioamrywiaeth; a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar ecoleg. |
| Diweddariad Gosod LoRaWAN | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Wrth fanteisio ar ddatblygiadau technoleg newydd, rydym ni'n parhau i arwain y ffordd o ran mabwysiadu datrysiadau LoRaWAN.  Ar hyn o bryd yr ydym ni'n canolbwyntio ar ddatblygu a phrofi datrysiadau monitro gofal cost is i gefnogi byw'n annibynnol yng nghartrefi defnyddwyr gwasanaeth diamddiffyn. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Cludiant Rhanbarthol (gan gynnwys Teithio Llesol) | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ym mis Ebrill, cefnogodd y Cabinet y cynnydd a wnaed gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar y Cynllun Cludiant Rhanbarthol drafft ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer system gludiant ein rhanbarth, gan gynnwys nodau, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer gwella isadeiledd a gwasanaethau cludiant.  Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Ionawr ac Ebrill 2025, cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru y Cynllun Cludiant Rhanbarthol terfynol ym mis Gorffennaf. Mae dulliau ariannu rhanbarthol a fydd yn cael eu gweithredu o 2026 i 2027 yn y broses o gael eu cwblhau ac yr ydym ni'n paratoi ar gyfer hyn drwy ddatblygu rhestr â blaenoriaeth o brosiectau ar gyfer Conwy.<br><br>Mae gwaith ar ddau lwybr teithio llesol, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth y DU, wedi dechrau. Mae'r ddau lwybr wedi'u cynllunio i wneud siwrneiau'n haws, yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr cadair olwyn a phobl â phramiau a sgwteri symudedd. Ym mis Ebrill, dechreuodd y gwaith ar brosiect Pont y Soldiwr, pont newydd i groesi Afon Conwy ger gorsaf reilffordd Betws- y-coed. Mae'r prif waith dylunio ac adeiladu wedi'i ariannu gan grant gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, a chyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith ar yr A470. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar wahanol ddewisiadau, disgwylir i'r bont grog â dyluniad modern a gwella'r llwybrau ar y naill ochr a'r llall fod yn barod i'w defnyddio yn nhymor yr haf 2026. Ym mis Mai, dechreuodd gwaith ar lwybr oddi ar y ffordd newydd i gysylltu Glan Conwy a Chyffordd Llandudno, a ariennir yn bennaf gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae'r llwybr 2km o hyd yn cynnwys goleuadau sy'n sensitif i'r amgylchedd y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn a bydd yn cynnwys dwy bont newydd sy'n croesi Rheilffordd Dyffryn Conwy ac Afon Ganol. |
| Clefyd coed ynn | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gwaith wedi parhau i leihau'r risg a gyflwynir gan goed ynn heintiedig, yn benodol mewn parciau, mannau agored cyhoeddus, ysgolion, safleoedd addysg eraill, ac mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ymwelwyr (coed strydoedd trefol). Cafodd yr holl arolygon clefyd coed ynn eu cwblhau eleni o fewn yr amserlenni, ac mae'r gwaith yn parhau i ddilyn rhaglen yn seiliedig ar risg. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Cynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Mawrth, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Nod y Strategaeth ddrafft Leol yw disodli Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Conwy 2013, mewn ymateb i Strategaeth Genedlaethol ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordiroedd. Mae'r Strategaeth Leol yn egluro sut y bydd llifogydd yn cael eu rheoli yn ardal yr Awdurdod Lleol ac yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer mynd i'r afael â pherygl llifogydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Lifogydd yn nodi'r camau gweithredu yr ydym ni'n eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i helpu i reoli'r risg o lifogydd o ffynonellau lleol a chyflawni yn erbyn yr amcanion strategol a'r mesurau llifogydd a amlinellir yn y Strategaeth Leol. Bydd y Cynllun Gweithredu ar Lifogydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r ddarpariaeth barhaus yn erbyn amcanion a mesurau'r Strategaeth Leol i reoli'r risg o lifogydd o ffynonellau lleol.<br><br>Gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, mae cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ar y gweill ledled y sir yn Llanfairfechan (cyfnod dylunio); Llandudno (cyfnod adeiladu); Bae Cinmel (cyfnod adeiladu); Llanrwst (cyfnod dylunio), a Phenmaenmawr (cyfnod dylunio) a Hen Golwyn (cyfnod adeiladu).<br><br>Gwnaethon ni oedi'r gwaith adeiladu ar gynllun amddiffyn arfordirol Bae Cinmel yn ystod yr haf i ailagor y traeth a'r maes parcio, ond disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau fel y cynlluniwyd yn nhymor y gwanwyn 2026. |
| Cynllun Ynni Ardal Leol | Oren<br><br>O fewn goddefiant | Mae'r 7 ymyrraeth a nodir yn y Cynllun Ynni Ardal Leol yn symud ymlaen, rhai'n gyflymach nag eraill. Mae pryderon o hyd ynghylch ariannu gwaith ôl-osod, pympiau gwres a defnyddio cerbydau trydan ledled y sir heb gymorth ariannol. Mae cydweithio bellach wedi dechrau gydag Uchelgais Gogledd Cymru a'u Gwasanaeth Ynni i gynorthwyo sylfaen dystiolaeth ranbarthol ehangach a cheisiadau am grantiau. Er ein bod ni wedi gwneud cynnydd da, bydd cyflawni 4 o'r 7 ymyrraeth, adnoddau cyllid a staffio yn parhau i fod yn rhwystrau i'w cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y diffyg hwn yn rhanbarthol ac yn gweithio ar y cyd â ni ac Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu'r dystiolaeth a'r cymorthdaliadau gofynnol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Amgylchedd Glân a Deniadol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae grwpiau gwirfoddolwyr yn cyflawni tua 38,400 o oriau gwirfoddoli yng Nghonwy bob blwyddyn, gan tua 400 o wirfoddolwyr. Maen nhw'n parhau i wneud gwaith casglu sbwriel helaeth yn y sir, gan gynnwys glanhau traethau a gwaith strydlun (e.e. peintio pyst lampau, meinciau ac ati).<br>Rydym ni wedi cyflawni camau gweithredu i gefnogi ein Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau gyda ffrindiau a grwpiau cymunedol, ar y cyd â Mannau Agored. Mae'r rhain yn cynnwys darparu lloches feiciau werdd ym Mharc Eirias, gwella cynefinoedd, creu pyllau, plannu perllannau a choed, creu gerddi cymunedol, a newidiadau mewn arferion torri gwair i gefnogi bioamrywiaeth. |

## 2.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 2.3.1. Gwobrau a Chydnabyddiaeth Amgylcheddol

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym ni wedi llwyddo i gadw ardystiad Safon Amgylcheddol lefel 5 y Ddraig Werdd am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol. Yn dilyn asesiad chwe diwrnod, bu i archwilydd y Ddraig Werdd ganmol staff am eu hymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol eu gweithgareddau, a'u brwdfrydedd i'w lleihau nhw. Gwnaethon nhw hefyd ganmol yr ymdrechion parhaus i wneud gwelliannau amgylcheddol ar draws safleoedd y Cyngor yr ymwelodd â nhw.

Roeddem ni hefyd wrth ein bodd bod enillwyr Gwobr y Faner Werdd ym mis Gorffennaf 2025 yn cynnwys deg parc yn Sir Conwy, ac yr oedd pob un ohonyn nhw wedi cyflawni'r safonau uchel sy'n ofynnol ar gyfer y wobr. Yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus sy'n rhedeg y cynllun gwobrau, sy'n farc ansawdd rhyngwladol enwog ar gyfer parciau a mannau gwyrdd.

### 2.3.2. Harbwr Conwy

Cafodd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Conwy adroddiad ym mis Mawrth gan y Rheolwr Cyfleusterau, a oedd yn canolbwyntio ar y stormydd diweddar, y sefyllfa o ran atgyweiriadau parhaus, a thacluso'r cei. Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Ymgynghorol

Harbwr Conwy, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, penderfynodd y Cabinet barhau i olrhain perchnogion offer a deunyddiau eraill sydd wedi'u gadael. Mae ffibrau gwydr ffeibr sy'n arnofio o gyrff cychod sy'n dadfeilio yn eu miliynau ac yn ymgorffori eu hunain mewn organeddau morol yn bryder mawr. Mae paent sy’n plicio oddi ar gychod yn gadael gwaddodion aberoedd â chrynodiadau uchel o gopr, sinc a phlwm. Mae cyfansoddion sy’n cynnwys mercwri, a ddefnyddir fel cyfrwng gwrthffowlio, yn gallu bod yn wenwyn peryglus. Pan na ellir olrhain perchennog, mae’n rhaid i Awdurdod yr Harbwr ysgwyddo costau gwaredu, a all gyrraedd hyd at £3,000 ar gyfer llongau mwy.

### 2.3.3. Arddangos baneri ar Isadeiledd Cyhoeddus

Ym mis Medi gwnaethom ni gyhoeddi erthygl ar ein cynlluniau ar gyfer cael gwared ar faneri heb awdurdod o Isadeiledd Cyhoeddus er mwyn lleihau aflonyddwch a chostau. Rydym ni’n cydnabod bod hwn yn fater sensitif, a bod gan bobl amrywiaeth eang o safbwyntiau ac emosiynau ynghylch arddangos Baneri ar Isadeiledd Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae’n rhaid gofyn am ganiatâd gan y Cyngor cyn arddangos eitemau ar isadeiledd cyhoeddus er mwyn sicrhau bod gosodiadau'n ddiogel, yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn, a bod manylion cyswllt ac yswiriant ar gael. Rydym ni’n ymgynghori ag aelodau etholedig a chynghorau tref a chymuned cyn rhoi unrhyw ganiatâd.

### 2.3.4. Gwaith Priffyrdd

Mae gwaith atgyweirio a gwaith i roi wyneb newydd ar ffyrdd wedi'i wneud i'r Hen Briffordd, Singleton Crescent a Tanrallt Street ym Mochdre ac i St Asaph Avenue ym Mae Cinmel yn ystod mis Ebrill, Fernbrook Road ym Mhenmaenmawr yn ystod mis Awst, a Ffordd Pentregwyddel yn Llysfaen yn ystod mis Medi.

## Nod 3. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n ffynnu, sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 3

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 3.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Mae canran y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra wedi gostwng, ac mae'r mesur bellach tua 3.6%, sy'n cynrychioli tua 2,335 o bobl. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.4%, ond yn is na chyfartaledd y DU o 4%.

Gwnaeth canran yr unigolion 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth gynyddu ychydig o 6.1% i 6.3% yn ystod 2024 i 2025 sy'n cynrychioli 149 o ddisgyblion o garfan o 2,367.

Mae canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi gwella o 86% i 88% yn ystod 2024 i 2025. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu i 92.3% o'i gymharu â 91.7% y flwyddyn flaenorol.

Mae 23.2% o ddisgyblion yn cael addysg cyfrwng Cymraeg, i fyny ychydig o 22.9%.

Cynyddodd enillion wythnosol gros gweithwyr llawn amser yng Nghonwy o £636 i £678 yn ystod 2024 i 2025. Mae hyn ychydig islaw canolrif Cymru o £687, ac ymhell islaw cyfartaledd y DU o £730.

Mae gennym ni ddata newydd i'w gyflwyno yn yr adroddiad hwn ar gyfer cyfradd busnesau newydd yn agor a busnesau'n cau yn y sir fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio. Yn ystod 2024 i 2025, sefydlwyd 57 o fusnesau fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio (cyfanswm o 370). Mae hyn yn gynnydd o 56 y flwyddyn flaenorol (cyfanswm o 360). Ni sydd yn y 6ed safle yng Nghymru ar gyfer busnesau gweithredol newydd, uwchben Canolrif Cymru sef 52. Fodd bynnag, ar gyfer yr un cyfnod, gwnaeth 62 o fusnesau fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio (360 i gyd) gau. Mae hyn yn gynnydd o 60 y flwyddyn flaenorol (cyfanswm o 385). Ni sydd yn y 13eg safle yng Nghymru ar gyfer busnesau gweithredol yn cau (mae gan y 1af y nifer lleiaf a'r 22ain y nifer mwyaf), felly yr ydym ni islaw canolrif Cymru sef 54. Yn gyffredinol, mae 4,560 o fusnesau gweithredol yng Nghonwy, sydd, fesul

10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio, yn ein gosod ni yn y 7fed safle ac yn y chwartel uchaf yng Nghymru.

Er bod gostyngiad cymharol fach wedi bod yn nifer yr ymwelwyr sy'n dod i Gonwy yn ystod 2024 i 2025, sy'n ostyngiad o 9.95 miliwn yn 2023 i 2024 i 9.61 miliwn, mae cyfanswm yr effaith economaidd o £1.3 biliwn yr un fath.

Yn ystod 2024 i 2025 gwnaeth ein Cyngor ni ddenu £8.9 miliwn mewn cyllid allanol i gefnogi busnesau, adfywio a chymunedau.

Gwnaeth 50,295 o bobl gymryd rhan mewn gweithdy neu weithgaredd diwylliannol yn ein lleoliadau yn ystod 2024 i 2025. Aeth 213,547 o bobl i berfformiadau yn Venue Cymru a Theatr Colwyn, sy'n ostyngiad o 3% yn nifer y bobl a oedd yn bresennol (gostyngiad o 220,686) yn 2023 i 2024.

Rydym ni wedi cau ein Sgwrs y Sir yn ddiweddar: Mae Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bydd dangosyddion perthnasol i gefnogi'r nod hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn y tro nesaf.

Mae nifer y busnesau a gefnogwyd wedi gostwng ychydig yn ystod 2024 i 2025 i 66, i lawr o 81 y flwyddyn flaenorol. Cafodd ceisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gymeradwywyd gyfanswm o £2,127,484 mewn grantiau.  Mae Grant Cymorth Busnes Conwy wedi'i oedi o ganlyniad i ddiffyg adnoddau.

Yn ystod 2024 i 2025 rydym wedi cefnogi 174 o bobl i gael gwaith (i fyny o 121 y flwyddyn flaenorol).  Rydym wedi cynnig 51 o brentisiaethau (i fyny o 38); a 41 o leoliadau profiad gwaith (i fyny o 37).

### 3.1.1 Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| **Teitl** | **Diwedd blwyddyn 2023 i 2024** | **Canol blwyddyn 2024 i 2025** | **Diwedd blwyddyn 2024 i 2025** | **Canol blwyddyn 2025 i 2026** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl oedran gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Canolrif Cymru; Trothwy Goddefiant: Canolrif y DU** | 3.8%<br>Oren<br>Gwaeth | 3.9%<br>Oren<br>Gwaeth | 3.9%<br>Oren<br>Yr un fath | 3.6<br>Oren<br>Gwell |

### 3.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 8%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 6.1%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 6.3%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 95%; Trothwy Goddefiant: 94%** | 91.74%<br>Coch<br>Gwell | 92.3%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 94.5%; Trothwy Goddefiant: 93.5%** | 86.59%<br>Coch<br>Gwaeth | 88%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar gyfrifiad ysgol) - **cyfrif yn unig** | 22.97% | 23.28% |
| Cyflog wythnosol gros gweithwyr llawn amser yn y sir – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Canolrif y DU; Trothwy Goddefiant: Canolrif Cymru** | £636.1<br>Coch<br>Gwell | £678.4<br>Coch<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cael eu sefydlu fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 56<br>Oren<br>Gwaeth | 57<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cau fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 60<br>Coch<br>Gwell | 62<br>Coch<br>Gwaeth |
| Nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chonwy (STEAM) – **Cyfrif yn Unig** | 9.95 miliwn | 9.61 miliwn |
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yng Nghonwy (STEAM) – **Cyfrif yn Unig** | £1.3 biliwn | £1.3 biliwn |
| Swm y cyllid allanol a ddenwyd i gefnogi busnesau, adfywio a chymunedau – **Cyfrif yn Unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | £8,897,498 |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithdy neu weithgaredd diwylliannol (Lleoliadau / Diwylliant a Llyfrgelloedd / Digwyddiadau) – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 50,295<br>Nid yw'r statws yn berthnasol<br>Nid yw'r duedd yn berthnasol |
| Nifer y bobl sy'n mynychu perfformiad yn Venue Cymru a Theatr Colwyn – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 180,000; Trothwy Goddefiant: 171,000** | 220,686<br>Gwyrdd<br>Gwell | 213,547<br>Gwyrdd<br>Gwaeth |
| Sgwrs y Sir: Dangosydd Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid – **yn cael ei ddatblygu** | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 3.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd gyda grantiau - **Cyfrif yn Unig** | 81 | 66 |
| Nifer y bobl a gefnogir i gael cyflogaeth trwy waith Canolbwynt Cyflogaeth Conwy – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 145; Trothwy Goddefiant: 130** | 121<br>Coch<br>Gwell | 174<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer y prentisiaethau modern ar strwythur y staff – **Cyfrif yn Unig** | 38 | 51 |
| Nifer y lleoliadau profiad gwaith a gynigir – **Cyfrif yn Unig** | 37 | 41 |

## 3.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae tri ar ddeg o gamau gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae un wedi'i gwblhau, mae dau o fewn goddefiant ac mae deg ar y trywydd iawn.

### 3.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Cymunedau am Waith a Mwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, bu cyfanswm o 115 o ymgysylltiadau (28 ar gyfer pobl 16 i 24 oed, ac 87 ar gyfer pobl 25 oed a hŷn). Yn yr un cyfnod gwnaeth 76 o bobl ddechrau swydd (18 o bobl rhwng 16 a 24 oed, a 58 o bobl 25 oed a hŷn). |
| Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Er bod y data ar nifer y disgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 wedi cynyddu eleni, mae nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 mewn ysgolion categori 3 wedi aros yn sefydlog. Wrth ystyried data oedran Derbyn, fodd bynnag, mae'n rhaid cofio mai dyma flwyddyn gyntaf addysg statudol i'r disgyblion hynny ac y gallai'r canrannau gynyddu neu ostwng. Rydym ni'n cydnabod mai dim ond drwy symud ysgolion categori T2 ar hyd y continwwm iaith y bydd y data hwn yn cynyddu'n ddigonol. O'n gwaith monitro o ysgolion T2, rydym ni'n gwybod bod dwy allan o 14 o ysgolion mewn sefyllfa gref i symud ar hyd y continwwm.<br>Mae ein cynllun Plethu Croesi'r Bont ar waith ac mae trafodaethau cychwynnol yn digwydd i gyflwyno'r cynllun i ardaloedd eraill. |
| Prosiect Ymgysylltu â Phobl Ifanc | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r fenter ieuenctid hon yn cefnogi pobl ifanc 16 i 19 oed sydd wedi datgysylltu i feithrin hyder, lleihau unigedd, ac ennill sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Yn ystod y cyfnod, gwnaethom ni ymgysylltu â 44 o bobl ifanc, cyflwyno cyrsiau i 60 o gyfranogwyr, a chyhoeddi 82 o dystysgrifau.<br>Roedd Cydlynydd Pobl Ifanc ac Abergele Youth Action yn bresennol yng nghyfarfod cyllidwyr Llywodraeth Cymru. Gwnaeth cyllidwyr Llywodraeth Cymru ganmol y prosiect am fynd i'r afael ag arloesedd a thlodi plant (Grant Arloesi Tlodi Plant), a bu cydnabyddiaeth gref i wahanol achrediadau a chefnogaeth hanfodol i bobl ifanc. |
| Prosiect Llwybrau i Gyflogaeth | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y prosiect hwn bellach wedi'i roi ar gyfer 2025 i 2026. Hyd yn hyn mae 15 o gyrsiau wedi'u trefnu gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys adeiladu, manwerthu, Achrediad y Diwydiant Diogelwch, teledu cylch caeedig, diogelwch bwyd, manwerthu, gweinyddu, a barista. Mae tua 100 o bobl wedi archebu lle ar y cwrs, ac mae 8 wedi cwblhau'r cwrs hyd yn hyn. Mae hyn wedi arwain at 11 o bobl newydd yn ymuno â Chymunedau am Waith a Mwy hyd yn hyn. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ddiweddar, gwnaethom ni ymgynghori ar ein strategaeth ar gyfer Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu (2026 i 2035). Mae hyn yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer dysgu yng Nghonwy ac yn egluro'r angen am foderneiddio a'r prosesau y byddwn ni'n eu dilyn i weithredu unrhyw newid, sy'n cynnwys ymgysylltu â'r gymuned. Ein nod yw sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn fuddiol i brofiadau dysgu disgyblion. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y strategaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, a bydd y canlyniad yn cael ei gyflwyno i gynghorwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Rydym ni'n symud ymlaen ag amrywiaeth o ymgynghoriadau ar gynigion i uno a datblygiadau eraill, sydd wedi cael eu hadrodd i ddemocratiaeth. Ym mis Ebrill, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar gyfer y cynnig i ffedereiddio Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan. Wedi hynny, cytunodd y Cabinet i ystyried dewisiadau eraill ar gyfer dyfodol y ddwy ysgol, a lansiwyd ymgynghoriad newydd. Ym mis Mai, adolygodd y Pwyllgor Craffu hefyd gynigion ar gyfer ymgynghori ar uno Ysgol T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn. Cymeradwyodd y Cabinet yr ymgynghoriad yn ddiweddarach y mis hwnnw. Ym mis Awst gwnaeth y Cabinet gymeradwyo uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen; ac Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr i sefydlu Cyrff Llywodraethu Dros Dro i arwain ar y broses uno.<br><br>Mae gwaith rhagarweiniol yn mynd rhagddo'n dda yn Ysgol y Gogarth ac Ysgol Eirias. Mae'r Achos Busnes Cyfalaf wedi'i gyflwyno, a gofynnwyd am gyllid ar gyfer y prosiectau hyn. |
| Hwyluso Cynlluniau Cymunedol ac Adfywio | Oren<br>O fewn goddefiant | Er bod capasiti gweithredol yn parhau i fod wedi'i gyfyngu, rydym ni'n manteisio'n weithredol ar bartneriaethau strategol i wella'r ddarpariaeth, ehangu cyrhaeddiad a chynyddu'r effaith. Mae mentrau presennol yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer gweithredu Cynlluniau Bro, Cynlluniau Kickstarter, a Chynlluniau Cymunedol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Cwblhawyd | Mae pob dysgwr bellach wedi cael ei drosglwyddo i'r system ADY newydd, ac mae'r system AAA wedi'i 'diffodd'. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hadolygiad o'r ddeddfwriaeth ac mae Conwy yn cymryd rhan weithredol mewn Gweithgor sy'n mynd i'r afael â'u 5 blaenoriaeth. Mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a bydd y prosiect hwn yn dod i ben. |
| Gwella Addysg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ym mis Mehefin, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ddiweddariad ar gynnydd yr ysgol; gwaith i gefnogi arweinyddiaeth, addysgu a dysgu; a pharhad Cwricwlwm i Gymru. Nodwyd bod proffil Estyn ar gyfer ysgolion Conwy ymhlith y gorau yng Nghymru. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023 i 2024, dim ond 2 (ffederal) allan o 27 o ysgolion a welwyd gan Estyn y cafodd eu rhoi mewn categori statudol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ysgolion dan adolygiad Estyn ac nid oes angen gwelliant sylweddol ar yr un ohonynt. Mae ysgolion sydd wedi cael cymorth neu sydd ar gynlluniau cymorth 360 wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan, ac wedi cael canlyniadau cadarnhaol mewn arolygiadau Estyn (nid oes angen ymweliad dilynol ar yr un ohonynt).<br>Mae pob ysgol uwchradd yng Nghonwy wedi manteisio ar y cyfleoedd y mae Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig i ysgolion a disgyblion, ac mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn llawer o ysgolion cynradd. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion i wella sgiliau, presenoldeb, adborth a her. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai trefniadau newydd ar gyfer gwella ysgolion yn cynnal y safonau addysg presennol.<br>Ym mis Awst gwnaethom ni longyfarch dysgwyr Conwy ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A ac AS, a diolch i'r holl athrawon, rhieni a gofalwyr a oedd wedi cefnogi ein pobl ifanc. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Bargen Dwf Gogledd Cymru | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae Conwy yn parhau i gael ei chynrychioli'n gryf ar draws rhaglenni a phrosiectau Uchelgais Gogledd Cymru, gan sicrhau bod blaenoriaethau strategol y sir wedi'u hymgorffori'n effeithiol o fewn cynllunio a chyflenwi rhanbarthol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn allweddol wrth sicrhau manteision hirdymor mewn datblygu economaidd, isadeiledd, sgiliau ac arloesedd i Gonwy a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.<br>Yn rhan o'r dull cydweithredol hwn, mae Conwy yn cymryd rhan weithredol yn y Rhwydwaith Talent Twristiaeth, menter allweddol dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai. Mae cytundeb ariannu £4.43 miliwn wedi datgloi buddsoddiad ehangach o £19 miliwn mewn cyfleusterau hyfforddi uwch a throsglwyddo gwybodaeth ar draws pum safle yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Nghampws Rhos yng Nghonwy, gan atgyfnerthu rôl y sir wrth lunio gweithlu twristiaeth medrus a gwydn. |
| Strategaeth Twf Economaidd Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ddiweddariad cynnydd ar gyflawniad yn erbyn Strategaeth Twf Economaidd Conwy, 2017 i 2027. Nododd yr adroddiad fod busnesau wedi wynebu nifer o heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o'r pandemig i bwysau chwyddiant parhaus a tharfu ar fasnach fyd-eang. Serch hynny, mae 79% o'n rhaglen wedi'i chwblhau ac mae llawer o'r prosiectau sy'n weddill bron â'u cwblhau. Mae mentrau fel Rhwydwaith TALENT Twristiaeth a Rhwydwaith Llysgenhadon yn gwella proffil a gweithlu'r sector; mae gwaith adnewyddu yn Venue Cymru a'r Colonadau yn mynd rhagddo, a'r nod yw hybu amwynderau lleol a'r economi gyda'r nos; mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy diwygiedig yn cyd-fynd â strategaethau twristiaeth gynaliadwy ehangach, gan bwysleisio twf cytbwys; a bu ymdrechion cadarnhaol i gynnwys busnesau a thrigolion lleol mewn amrywiaeth o brosiectau, gan feithrin amgylchedd cydweithredol. Mae'r adroddiad yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed i gefnogi pob un o'n 13 o amcanion ar gyfer y rhaglen. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cyflawni Cynlluniau Bro | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi parhau i hyrwyddo Cynlluniau Bro i gymunedau yng Nghonwy. Rydym wedi gweithio gyda Chymorth Cynllunio Cymru (PAW) i gynhyrchu canllawiau ar gyfer cynlluniau bro i'w hasesu a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae fersiwn ddrafft yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i ddemocratiaeth ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r Rhwydwaith Cynllun Bro yn parhau i fod yn gyswllt allweddol i Gynghorau Tref a Chymuned wrth ddatblygu Cynlluniau Bro. Mae Bae Colwyn yn parhau i wthio ymlaen â'u Cynllun Bro a 6 gweithgor.<br>Mae *Llais TBC* (Man cymunedol) yn Nhowyn a Bae Cinmel bellach wedi'i ddiddymu, ac mae'r Cynllun Bro yn cael ei oruchwylio gan y Cyngor Tref. Mae cylch gorchwyl newydd a pholisi cyd-etholiad wedi'u cymeradwyo. Mae cynnydd wedi bod mewn ymgysylltiad cymunedol yn Abergele, ac mae llawer o waith cefndirol ar y gweill, gan gynnwys adolygu'r cynllun ac edrych ar sut y gellir ei ddiweddaru neu ei addasu i wasanaethu'r gymuned yn well. |
| Strategaeth Creu Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | I gefnogi darpariaeth barhaus Creu Conwy, yr ydym ni wedi cael £545,015 o Gyllid Ffyniant Gyffredin y DU. Gwnaeth Partneriaeth Strategol Creu Conwy gyfarfod ym mis Mehefin, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun cyflawni cydweithredol ar gyfer 2026 i 2028. Mae Timau Tref yn cyfarfod yn rheolaidd, a thrwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae prosiectau dan arweiniad lleol wedi cael eu comisiynu ledled y sir. Cynhaliwyd Gŵyl Lenyddol Pensychnant ym mis Medi, ac mae prosiectau eraill wedi'u trefnu i gael eu cynnal cyn mis Mawrth 2026.<br>Mae partneriaethau ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i gael eu datblygu, gan adeiladu ar lwyddiant Taith. Mae Cysgod Rhag y Glaw yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Creu Conwy, a Chelfyddydau Hamdden Sir Ddinbych Cyf, ac maen nhw'n defnyddio creadigrwydd i wella lles meddyliol pobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl. Mae partneriaid cyflawni yn cynnwys Mind Conwy ac Anableddau Dysgu Conwy. Gwnaeth cynrychiolwyr o'r tîm fynd i gynhadledd Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Lles Cymru ym mis Medi, ac ar sail hynny, dechreuwyd prosiect Presgripsiynu Cymdeithasol / Atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle gynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru i gefnogi ein Cynllun Rheoli Cyrchfan, 2023 i 2029, yn ogystal â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer Strategaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn nodi un ar ddeg o amcanion i sicrhau bod y Sir yn parhau i fod yn gyrchfan dwristiaeth lewyrchus, yn ogystal ag ystyried cynaliadwyedd y gyrchfan. Ym mis Mai, cymeradwyodd y Cabinet y cynllun gweithredu diwygiedig a llofnodi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.<br><br>Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi bod yn ganolog i ddatblygu a mireinio Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori, gweithdai a thrafodaethau wedi'u targedu â chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth, busnesau lleol, grwpiau cymunedol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi helpu i sicrhau bod y cynllun wedi’i lywio’n lleol a’i alinio’n rhanbarthol, ac mae gan bob budd-ddeiliad allweddol gyfrifoldeb o roi’r cynllun ar waith. |

## 3.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Cafodd yr eitemau pwyllgor a’r newyddion ychwanegol canlynol eu cynnal yn y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 3.3.1. Presenoldeb

Ym mis Mai, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ddiweddariad ar y fframwaith Perthyn, Ymgysylltu a Chyfranogiad ar gyfer cefnogi ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr. Wrth graffu ar yr adroddiad, nododd yr Aelodau fod newid meddylfryd wedi bod yn dilyn pandemig Covid-19, a gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref ac amharodrwydd i fynychu'r ysgol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu arferion da o ran dulliau o wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr, ac argymhellodd ein harolygiad o'r Gwasanaeth Addysg Lleol ym mis Tachwedd 2023 y dylem ni gryfhau prosesau i wella presenoldeb. Nododd yr adroddiad fod cyfraddau presenoldeb ledled Cymru yn parhau i fod yn bryder gan fod absenoldeb parhaus wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ymhlith unigolion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith sy'n

cael ei wneud i wella ymgysylltiad dysgwyr, gan gynnwys rheoli absenoldeb ffurfiol drwy'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg.

### 3.3.2. Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Ysgolion

Ym mis Mehefin, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau y wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o Grant Cyfalaf Atgyweirio a Chynnal a Chadw Addysg Llywodraeth Cymru. Mae tua £10 miliwn o waith atgyweirio a chynnal a chadw ar ôl o fewn ystâd yr ysgolion ar hyn o bryd, ond mae gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y broses y cytunwyd arni ac ar ôl ymgynghori â phenaethiaid. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y byddai gan oddeutu 30 o ysgolion Conwy baneli solar erbyn diwedd 2025, a'r bwriad oedd y byddai holl ysgolion Conwy yn defnyddio rhyw fath o ynni solar yn y pen draw. Mae pympiau gwres, inswleiddio, toeau newydd, a gwydr dwbl hefyd yn cael eu hystyried pan fo'n briodol i gefnogi cyrraedd ein targed carbon sero net.

### 3.3.3. Benthyciad Pontio

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, cymeradwyodd y Cabinet fenthyciad pontio o £205,205 ar gyfer Ysgol Eirias, fel yr argymhellodd y Panel Benthyciadau Ysgol. Byddai'r benthyciad yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb yr ysgol a byddai'n ad-daladwy dros gyfnod o 5 mlynedd, a byddai'r ad-daliad yn dechrau yn 2026 i 2027 ochr yn ochr ag ad-dalu benthyciad presennol yr ysgol o £350,680 a gytunwyd gan yr Aelodau yn 2024 i 2025. Sicrhawyd bod yr ysgol mewn sefyllfa dda i weithredu o fewn ei chynllun adfer, a chredir ei fod yn realistig ac yn gyraeddadwy.

### 3.3.4. Grant Plant a Chymunedau

Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Gorffennaf ar Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru. Roedd adroddiad ar y prif bwyntiau ar ddiwedd 2024 i 2025 yn rhoi manylion am y grant o £5.5 miliwn, y mae £645,000 ohono wedi'i glustnodi ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg yn yr ardal. Diben y grant yw bodloni anghenion y plant a'r oedolion mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrraeth gynnar, atal a chefnogi. Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad manwl o wariant a chynnydd sy'n cwmpasu'r rhaglenni gwaith allweddol canlynol:

- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg

- Gofal Plant a Chwarae
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol
- Cymorth Magu Plant ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys
- Cronfa wyliau gwaith chwarae
- Grant Cymorth Magu Plant
- Hyfforddiant Gofal Plant

Nodwyd na fu tanwariant ar gyfer y flwyddyn, ac yn 2025 i 2026 yr oedd £833,000 wedi'i glustnodi ar gyfer ehangu gofal plant a ariennir ymhellach. Mae hyn wedi ein galluogi ni i gyflwyno gofal plant a ariennir ymhob ardal yn y sir, yn amodol ar gyllid a chapasiti. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod hyn wedi cael croeso.

### 3.3.5. Cyhoeddiadau'r Tymor Newydd Ysgol

Ym mis Awst, cafodd rhieni eu hatgoffa y gallai plant sy'n mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi wneud y gorau o amser bwyd drwy fanteisio ar Brydau Ysgol am Ddim i bob Disgybl Ysgol Gynradd. Mae pob disgybl yn ysgolion cynradd Conwy wedi gallu cymryd mantais o ginio ysgol am ddim ers mis Medi 2023, wedi i Lywodraeth Cymru gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bob Disgybl Ysgol Gynradd. Mae prydau ysgol yn bodloni'r safonau maeth a gwerthoedd egni a maetholion ar gyfer gofynion bwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol fel y nodir yn y Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013. I weld beth sydd ar y fwydlen, ewch i'n Gwiriwr Bwydlenni Cinio Ysgolion Cynradd.

Cafodd disgyblion a rhieni disgyblion uwchradd eu hatgoffa y bydd angen dangos cerdyn bws ar gyfer pob siwrnai ar fws ysgol. I wneud yn siŵr bod sedd gan ddisgyblion sydd â hawl i deithio a bod lle ar bob bws, bydd y polisi 'dim pas, dim teithio' yn cael ei orfodi ar fysiau ysgolion Conwy i gyd o'r diwrnod cyntaf y mae'r disgyblion yn ôl yn yr ysgol ym mis Medi. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am drefniadau cludiant eich plentyn, cysylltwch â'r Tîm Cludiant Teithwyr drwy e-bostio cludiantteithwyr@conwy.gov.uk, neu drwy ffonio 01492 577899.

### 3.3.6. Wythnos Gwaith Ieuenctid

Ym mis Mehefin, dangosom ni ein cefnogaeth i Wythnos Gwaith Ieuenctid 2025 drwy amrywiaeth eang o weithgareddau a dathliadau, o brosiectau celf a chrefft, garddio, a sesiynau lles, i weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd. Cafwyd hyn i gyd ynghyd â'r

cannoedd o weithgareddau, prosiectau a mentrau sydd fel arfer yn digwydd o wythnos i wythnos. Cafodd pobl ifanc eu hannog i fanteisio ar y cyfle hwn i gysylltu ag eraill, cael hwyl a dathlu pwysigrwydd gwaith ieuenctid yn ein cymuned.

### 3.3.7. Cyngor yr Ifanc

Ymwelodd Cadeirydd ac Ysgrifennydd Cyngor Ieuenctid Conwy ag Ysgol Clywedog yn Wrecsam yn ddiweddar i'w helpu a'u cefnogi i ddatblygu eu Cyngor Ysgol, gan archwilio pynciau fel strwythur, fframwaith, gwerthoedd, a sut i gyflawni camau gweithredu arfaethedig yn effeithiol. Roedd y cydweithio hwn yn ffordd wych o rannu arferion gorau; a dangos i arweinwyr myfyrwyr sut y gallan nhw ddatblygu sgiliau gwaith tîm, arweinyddiaeth a chyfathrebu effeithiol i wella darpariaeth ac allbwn eu Cyngor Ysgol. Bu'r grwpiau hefyd yn gweithio gyda 'Mind Our Future', elusen iechyd meddwl i bobl ifanc a ariennir gan Gronfa Gymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, sy'n anelu i helpu pobl ifanc gyda'u hiechyd a lles emosiynol a'u grymuso i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed gan ddarparwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. I gael rhagor o wybodaeth am Gyngor Ieuenctid Conwy neu'r gwaith yr ydym ni'n ei wneud i gefnogi pobl ifanc, ewch i dudalennau gwe ein Gwasanaeth Ieuenctid, Ymgysylltu a Pherthyn.

Mae Cyngor Ieuenctid Conwy wedi gweithio ar ymgyrch gwrth-fêpio a lansiwyd yn ystod Wythnos Gwaith Ieuenctid ym mis Mehefin. Gweithiodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid gyda staff yn ein Gwasanaethau Rheoleiddio i ddeall y materion sy'n ymwneud â fêpio ac effaith gwahardd fêps untro yn well. Gwnaethon nhw greu animeiddiad a phosteri, sy'n tynnu sylw at esgusodion cyffredin dros fêpio, a'r nod yw perswadio pobl ifanc eraill i roi'r gorau i'r arfer neu beidio â dechrau yn y lle cyntaf.

### 3.3.8. Digwyddiadau'r Llyfrgell

Ym mis Ebrill gwnaethom ni gyhoeddi astudiaeth achos am y cynnig Darllen ar y Cyd yn ein gwasanaeth llyfrgell. Mae Darllen ar y Cyd yn un o blith amrywiaeth o weithgareddau estyn allan ac ymgysylltu â'r gymuned sydd gan y gwasanaeth i helpu i gefnogi iechyd a lles y cwsmeriaid, a gall wneud gwahaniaeth mawr wrth roi hwb i hyder. Mae naw o'n staff wedi'u hyfforddi yn 'Arweinwyr Darllen' ar hyn o bryd. Cynhelir grwpiau wythnosol a phob pythefnos ledled y sir mewn llyfrgelloedd yn Abergele, Conwy, Bae Colwyn, Llandudno, a Llanrwst. Mae'r grwpiau yn rhad am ddim, maen nhw ar gael i bawb ac maen nhw'n cynnig lle croesawgar, cynhwysol, anfeirniadol lle gall pobl leol gysylltu a rhannu profiadau gan ddefnyddio straeon a cherddi. Does dim pwysau ar neb i siarad na darllen yn uchel. I

gael rhagor o wybodaeth am Ddarllen ar y Cyd yng Ngwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy, ewch i wefan ein llyfrgelloedd neu ffoniwch 01492 576139.

Ym mis Mai cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Llyfrgell Llanrwst a oedd yn cynnwys lluniau archif prin o'r Wladfa, ardal ym Mhatagonia lle ymfudodd cymunedau Cymreig, trwy garedigrwydd Archif Darlledu Cymru. Roedd dathliad Ysbryd Patagonia yn rhan o gyfres genedlaethol o ddigwyddiadau i anrhydeddu treftadaeth gyfoethog darlledu yng Nghymru, gan ddangos clipiau o'r 1950au. Daeth dros 45 o bobl draw i fwynhau perfformiad byw gan y canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys, a gofnododd hanes y Cymry yn mudo i Batagonia yn ei raglen ddiweddar ar S4C, 'Gwladfa'. Cafodd y gynulleidfa drafodaethau diddorol ac awgrymiadau ar ddefnyddio offer Cornel Clipiau Archif Darlledu Cymru, sy'n caniatáu i chi archwilio lluniau sain a fideo o hanes darlledu Cymru yn rhad ac am ddim. Mae Cornel Clipiau hefyd wedi'i leoli yn Archif y Sir yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy. Gwnaethom ni ddiolch i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Darlledu Cymru, Gwilym Bowen Rhys, Blas ar Fwyd a staff llyfrgell Llanrwst am eu gwaith caled wrth gynnal digwyddiad mor arbennig.

Ym mis Gorffennaf gwnaethom ni lansio ein Sialens Ddarllen yr Haf, sy'n dathlu creadigrwydd a'r gallu i adrodd straeon. Y thema oedd 'Gardd o Straeon' ac edrychom ni ar natur, ein hamgylchedd a chynefinoedd naturiol. Gall plant rhwng 4 ac 11 oed ymweld ag unrhyw lyfrgell yng Nghonwy i ymuno â'r her a chânt eu hannog i ddarllen 6 llyfr (neu fwy!) cyn diwedd yr haf, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau am ddim, o gelf a chrefft i arddio a mwy.

Eleni, gwnaethom ni hefyd lansio ein her ddarllen gyntaf i oedolion - Bingo Llyfrau - i annog darllenwyr 18+ i roi cynnig ar awduron, fformatau a genres newydd. Gall yr unigolion sy'n cymryd rhan gasglu cerdyn Bingo o'u llyfrgell leol a chwblhau tri bocs mewn unrhyw gyfeiriad i gymryd rhan. Pan fydd y tri bocs wedi cael stamp, bydd gwobr! Mae dros 150 o ddarllenwyr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun ers iddo ddechrau ym mis Awst, a bydd yr her yn parhau tan y Nadolig.

### 3.3.9. Cefnogi Diwylliant

Mae gwaith celf wedi'i osod yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst, gan greu llwybr o amgylch y sir yn rhan o brosiect LLENWI. Y syniad y tu ôl i LLENWI yw gweithio gyda chymunedau i greu gwaith celf sy'n dathlu'r hyn sy'n gwneud ein trefi yn Sir Conwy yn unigryw. Ymunodd yr Artist digidol a 3D lleol Livi Wilmore â'r artist arwyddion traddodiadol Tomos Jones o Momo Signs i weithio â dros 250 o bobl o bob cwr o'r sir i

lunio cysyniadau sy'n unigryw i bob cymuned. Daw murluniau Tomos, sydd wedi eu paentio â llaw, yn fyw pan fydd y cod QR yn cael ei sganio â ffôn clyfar, gan agor byd 'realiti estynedig' digidol Livi sydd wedi ei ysbrydoli gan gyfraniadau'r gymuned. Mae LLENWI wedi'i gyflwyno yn rhan o'n Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy ac mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i gyllid gan gynllun Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Rydym ni'n gobeithio y bydd yn annog ymwelwyr i archwilio lleoedd newydd a chloddio o dan yr wyneb i ddysgu rhagor am ein diwylliant lleol a'r Gymraeg.

Mae nifer o eitemau addurniadol a threftadaeth a oedd gynt yn cael eu cadw yn ein swyddfeydd ym Modlondeb yng Nghonwy wedi cael eu symud i leoliadau newydd yn dilyn asesiad gan ein Gwasanaeth Amgueddfeydd, a chefnogaeth gan ymgynghorydd amgueddfeydd. Cafodd eitemau eu hasesu am eu harwyddocâd a'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Eitemau sydd wedi neu a fydd yn cael eu derbyn i gasgliadau amgueddfeydd i'w cadw yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy neu'n cael eu benthyca'n ffurfiol gan Gyngor Tref Conwy i'w harddangos yn Neuadd y Dref.
- Casgliadau o eitemau i'w cyffwrdd mewn amgueddfeydd ar gyfer gweithgareddau estyn allan.
- Eitemau archif i'w hanfon i gael eu hasesu ac o bosibl eu cadw yn storfa Canolfan Ddiwylliant Conwy gan Wasanaeth Archifau Conwy.
- Eitemau sy'n eiddo cyfreithiol i Gyngor Tref Conwy ac y bydd yn cael eu dychwelyd iddynt.

Mae'r Addurn Crog wedi'i Frodio, Croesi'r Conwy, sydd wedi'i ychwanegu'n ffurfiol at gasgliad parhaol y Gwasanaeth Amgueddfeydd, ymhlith yr eitemau sydd wedi'u symud ar gyfer cadwraeth hirdymor. Mae nifer o eitemau gan gynnwys plac efydd Pont Grog Telford Conwy a nifer o baentiadau wedi cael eu symud i Neuadd y Dref, lle bydd Cyngor Tref Conwy yn sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod ar gael ac yn weladwy i'r cyhoedd. Mae darnau sydd wedi'u hasesu yn ddarnau nad ydynt yn addas ar gyfer amgueddfeydd ond eu bod nhw'n addas ar gyfer ocsiwn. Cafodd Arwerthwyr Rogers Jones eu penodi i werthu'r eitemau hyn sy'n weddill, sy'n cynnwys printiau, ffotograffau wedi'u fframio a dodrefn. Cafodd pedwar paentiad eu hanfon at ocsiwn arbenigol yng Nghaerdydd.

Ym mis Mai, gwnaeth ein Gwasanaeth Amgueddfeydd ddadorchuddio paentiad pwysig newydd yn Llyfrgell Bae Colwyn, y cafodd ei gyd-gynhyrchu gan Mfikela Jean Samuel sef artist o Cameroon sy'n byw yng Ngogledd Cymru, a Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy.

Roedd y prosiect, a ariannwyd drwy Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a Llywodraeth Cymru, yn caniatáu i blant ysgolion lleol ddysgu am stori hanes Pobl Ddu o'r sir nad oes llawer yn gwybod amdani drwy weithdai celf creadigol a sesiynau rhyngweithiol yn ogystal â chysylltu â'u 'cynefin' neu eu hardal leol. Creodd Mfikela baentiad mewn ymateb i hanes Tŷ Congo / Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn (1889 i  1912), sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng Cymru a'r brwydrau ehangach am annibyniaeth i Affrica, gan gynnwys cyswllt diddorol iawn â'r brwydrwr dros ryddid, Nelson Mandela. Roedd treftadaeth Mfikela yn caniatáu i'r plant brofi ei safbwynt unigryw drwy ei waith celf, gan fyfyrio ar bobl a symbolau o Gymru ac Affrica. Cafodd y dosbarthiadau gyfle i fynd â phaentiad mawr a grëwyd yn ystod y gweithdy yn ôl i'r ysgol, gan helpu i sicrhau etifeddiaeth y prosiect ar gyfer plant cenedlaethau'r dyfodol. Mae croeso i bawb i ddod i weld 'Pontio Cyfandiroedd: Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn ac Athro Mandela' yn llyfrgell Bae Colwyn. Gellir gweld yr oriau agor yn https://llyfrgelloeddconwy.com.

Ym mis Mehefin, cafodd y cerflun olaf ei osod ar Lwybr Alys yn Llandudno, sy'n cwblhau'r gwaith adnewyddu i ddathlu etifeddiaeth Anturiaethau Alys yng Ngwlad Hud gan Lewis Carroll. Cawsom gyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i adnewyddu a thrwsio cerfluniau poblogaidd Alys yng Ngwlad Hud ac ail-lansiwyd y llwybr yn swyddogol ym mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, mae'r cerflun olaf hwn wedi'i gyfrannu gan y contractwyr sy'n gwneud y gwaith gosod – RELM Construction. Mae taflen a map newydd ar gyfer Llwybr Alys i dywys ymwelwyr ar hyd y llwybr ar gael i'w prynu o Ganolfan Groeso Llandudno yng Nghanolfan Siopa Fictoria.

### 3.3.10. Adfywio

Ym mis Ebrill, cafodd cynlluniau eu cyhoeddi i ddatblygu hen adeilad Marks & Spencer ar Mostyn Street yn Llandudno yn ganolbwynt hamdden, yn dilyn cais gan y Cyngor i Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £700,000 at y prosiect, sy'n costio dros £5 miliwn.  Bydd y cyllid yn cefnogi Mostyn Estates, perchnogion yr adeilad, i adnewyddu'r adeilad a datblygu canolbwynt adloniant i deuluoedd a man sy'n cynnig bwyd a diod, yn cynnwys bar a chaffi, 6 lôn bowlio, darts clyfar, gwrthfwrdd, byrddau pŵl, golff gwallgof 11 twll dan do, ynghyd â chanolfan adloniant i deuluoedd.

Bydd Colonâd eiconig yn Llandudno yn cael ei adfer ar ôl buddsoddiad ar y cyd o £800,000 gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a phrosiect Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Mae'r rhodfa gysgodol 170 metr, sydd mewn lle amlwg yn Llandudno, ac sy'n

edrych dros y bae, y pier Fictoraidd a'r promenâd, yn ased diwylliannol pwysig. Fodd bynnag, mae adroddiad adeileddol diweddar wedi datgelu dirywiad sylweddol, gan beryglu dyfodol y colonâd heb ymyrraeth brys. Mae contractwr lleol, Jennings, wedi'i benodi i wneud y gwaith adfer, ac wrth i'r gwaith fynd rhagddo, bydd angen cau darn o ffordd ar Alex Munro Way a bydd dargyfeiriad i fynd at y llethr sgïo ac ar gyfer cerbydau danfon nwyddau i fusnesau eraill. Fodd bynnag, caniateir mynediad i gerddwyr.

Ym mis Ebrill, cafodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Economi a Lle ddeiseb yn gofyn i ni ailymweld â chynigion i adleoli'r llyfrgell a'r ganolfan wybodaeth i dwristiaid yn Venue Cymru, sydd wedi cael £10 miliwn mewn cyllid Llywodraeth y DU i wella ac ehangu'r safle fel canolbwynt diwylliannol a bywiog. Ym mis Mehefin, cawsom ni olwg gyntaf ar argraffiadaur artistiaid o'r cynigion, a chafodd y pwyllgor craffu gyfle i'w hadolygu yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, ynghyd â chynlluniau ar gyfer y safle, a chanlyniadau Ymgynghoriad Llyfrgell Llandudno. Yng nghyfarfod y Cabinet yn ddiweddarach y mis hwnnw, rhoddwyd eglurder ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect, a chadarnhawyd y byddai lleoli'r Ganolfan Wybodaeth a'r Llyfrgell yn Venue Cymru yn arwain at arbedion o £114,480. Cymeradwyodd y Cabinet brosiect Dyfodol Venue Cymru, a bydd yr achos busnes terfynol yn awr yn cael ei ystyried gan Lywodraeth y DU. Bydd modd gweld y cynlluniau ar gyfer prosiect Dyfodol Venue Cymru yn Venue Cymru, y Ganolfan Groeso a Llyfrgell Llandudno dros y misoedd nesaf.

Cafodd aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle Conwy adroddiad ym mis Medi i ystyried dewisiadau yn dilyn cais llwyddiannus i gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i Borth Eirias, a agorodd yn 2013 yn rhan o'r gwaith atal llifogydd ar y promenâd ym Mae Colwyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar incwm, gwariant a'r sefyllfa gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn amlinellu'r dewisiadau ar gael ar gyfer newidiadau i'r dyfodol a pha gamau sydd eisoes yn cael eu cymryd. Un pryder yw colled incwm o ofodau masnachol yn yr adeilad. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda thenantiaid newydd posibl ar gyfer dau o'r gofodau sydd ar gael. Hefyd mae galw cynyddol am gyfleusterau addas gan grwpiau ac unigolion sy'n defnyddio'r traeth. Yn 2024 yn unig, cymerodd bron i 3,000 o bobl ifanc ran mewn gweithgareddau diogelwch dŵr a gynhaliwyd gennym ni. Mewn ymateb i'r galw cynyddol, gwnaethom ni gyflwyno cais i Gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r cyfleusterau sydd ar gael i ddefnyddwyr traethau, a oedd yn llwyddiannus.

Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle adroddiad gwerthuso ym mis Gorffennaf ar y gwelliannau a wnaed gan y buddsoddiad yn y cae 3G ym Mharc Eirias. Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant o ran darparu gwasanaethau a'r incwm a gynhyrchwyd, a chyflawnwyd £47,111 o incwm llogi cyffredinol rhwng 2024 a 2025 (cynnydd o £10,505 o'r flwyddyn flaenorol). Mae defnydd hyfforddi Rygbi Gogledd Cymru yn cynhyrchu £35,000 o incwm o'r cae, sy'n cynnwys mwy o ddefnydd ar gyfer y timau menywod newydd. Mae datblygu'r cae wedi galluogi i nifer fawr o grwpiau a digwyddiadau ddefnyddio'r cyfleuster ar adegau na fyddai wedi bod ar gael pan oedd yn gae glaswellt (yn arbennig yn ystod y gaeaf). Yn ogystal â hyn, mae'r cae newydd wedi creu'r cyfle i Stadiwm CSM gynnal gwyliau rygbi (a mathau eraill o chwaraeon), fel y gwyliau grwpiau oedran rhyngwladol a gynlluniwyd ag Undeb Rygbi Cymru. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfrifol am lawer o ddefnydd y telir amdano yn y stadiwm, a chaiff effaith economaidd fawr drwy westai ac ati ar gyfer timau rhyngwladol sy'n teithio ac yn aros am oddeutu pythefnos, gan ddod â gwariant sydd ei angen yn fawr i'r sector twristiaeth.

### 3.3.11. Cefnogi Twristiaeth

Rydym ni wedi cyflwyno cais llwyddiannus am £34,000 o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i wella profiadau ymwelwyr drwy ddatblygu Rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth Conwy ymhellach.  Mae'r cynlluniau'n cynnwys digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer Llysgenhadon Twristiaeth Conwy er mwyn iddyn nhw ddod at ei gilydd i rannu gwybodaeth a dysgu am y datblygiadau diweddaraf yn y sir, ac ymweld â busnesau twristiaeth yn ein trefi a'n pentrefi. Mae dyhead hefyd i recriwtio o leiaf pum busnes newydd i ymuno â Rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth Conwy, i ddiweddaru'r platfform gwe i gadw golwg ar anghenion pobl, ac i gynnwys modiwl newydd sbon yn ymwneud â hygyrchedd i sicrhau bod gan lysgenhadon y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd gennym ni yma yng Nghonwy i groesawu pawb. I gael rhagor o wybodaeth am fod yn Llysgennad Twristiaeth Conwy, ewch i Wefan Dewch i Gonwy.

### 3.3.12. Cefnogi Cyflogaeth

Cynhaliwyd cyfres o weithdai tecstilau creadigol yn rhan o brosiect Hyder yn Dy Hun, menter Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n cael ei gyflwyno gan Ganolbwynt Cyflogaeth Conwy a'r artist tecstilau enwog Cefyn Burgess. Canolbwyntiodd y gweithgareddau hyn ar feithrin hyder mewn rhifedd trwy gelf geometrig, gan annog dysgu ymarferol mewn amgylchedd cefnogol a dychmygus. Anogwyd y cyfranogwyr i ailystyried eu perthynas â mathemateg drwy ei chymhwyso mewn cyd-destun ymarferol, gweledol a chyfoethog o ran

diwylliant. Archwiliodd y gweithdai hefyd y cysylltiadau diwylliannol diddorol rhwng Cymru a Shillong yn India, rhanbarth sydd â hanes o gysylltiad drwy ddylanwad cenhadon Cymreig.  Myfyriodd y cyfranogwyr ar yr hanesion cyffredin hyn ac ennill gwybodaeth am barhad crefftau tecstilau ymhlith menywod Cymraeg eu hiaith yn y gymuned Khasi yn Shillong. Cafodd dros 20 o ddarnau eu gosod i'w harddangos yn ein swyddfeydd ym Mae Colwyn yng Nghoed Pella yn ystod mis Awst.

Roedd modd cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Lleoliadau Gwaith â Thâl ym mis Medi, sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc gael profiad mewn llywodraeth leol. Mae wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a cheir Cyflog Byw Cenedlaethol am 25 awr yr wythnos ar y lleoliadau gwaith 16 wythnos. Mae pob lleoliad wedi'i gynllunio i gefnogi cyfranogwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r profiad sydd eu hangen i gymryd eu camau cyntaf i gyflogaeth.

### 3.3.13. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin - Gwerthuso

Cynhaliwyd digwyddiad dathlu yng Nghanolfan Fusnes Conwy i nodi llwyddiannau ac effaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru. Lansiwyd cyhoeddiad yn nodi bod y rhanbarth wedi cael mwy na £123 miliwn gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, ac mae 169 o brosiectau'n cyflawni cynlluniau wedi'u teilwra ar draws tair blaenoriaeth: cymunedau a lle; cefnogi busnesau lleol; a phobl a sgiliau. Mae chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau ariannu a chefnogwyd mwy na 15,000 o bobl, 4,135 o fusnesau, a mwy na 1,830 o grwpiau lleol yn ystod 2022 i 2025. Mae mwy na 500 o gyfleusterau cymunedol wedi'u hadeiladu neu wedi'u gwella, ac mae llawer ohonyn nhw wedi uwchraddio cyfleusterau i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau lleol sydd eu hangen yn fawr. Diogelwyd bron i 1,000 o swyddi a chrëwyd 686 o swyddi eraill.  Roedd mwy na 38,750 o gyfleoedd gwirfoddoli, a chynhaliwyd mwy na 10,263 o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Gwnaeth data ychwanegol ddatgelu bod mwy na 7,600 o unigolion wedi ennill neu wedi cael cefnogaeth i ennill cymhwyster; bod bron i 5,300 o bobl wedi cael cymorth cyflogadwyedd; a bod busnesau wedi lleihau eu CO2 o 456 tunnell. Gellir gweld y cyhoeddiad effaith yma.

### 3.3.14. Cefnogi busnesau

Ym mis Awst, gwnaethom ni atgoffa busnesau i wneud cais am ryddhad ardrethi o 40% (wedi'i gapio ar £110,000 fesul busnes) dan gynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu,

Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan - https://www.conwy.gov.uk/cy .

### 3.3.15. Strategaeth Digwyddiadau a Ffilmio

Yn dilyn ei ystyriaeth yn gynharach ym mis Mawrth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle, cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Digwyddiadau a Ffilmio ar gyfer 2025 i 2030 yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli pedwerydd Strategaeth Digwyddiadau Conwy ers 2009, ac yn cydnabod bod digwyddiadau yn gyfrwng hynod effeithiol ar gyfer cyflawni amrywiaeth eang o amcanion polisi. Croesawodd yr aelodau'r gwaith o gefnogi'r diwydiant ffilm a theledu a chyfeiriad strategol cyffredinol y Strategaeth, a oedd yn nodi pwysigrwydd cael ei gydnabod yn gyrchfan hawdd i gynnal digwyddiadau a denu ymholiadau am ffilmiau.

# Nod 4. Mae pobl yng Nghonwy yn gallu cael gafael ar lety fforddiadwy, priodol ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywydau.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 4

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 4.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Mae nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin cymdeithasol ar hyn o bryd yn 1,543, sy'n cyd-fynd â niferoedd ddiwedd y llynedd.

Gwnaeth 808 o aelwydydd gysylltu â Datrysiadau Tai i ofyn am gymorth yng nghanol y flwyddyn, sy'n cynrychioli cynnydd o 3% ers y flwyddyn flaenorol.

Mae gostyngiad o 83% i 73% wedi bod yn y gyfradd atal yn llwyddiannus yn ystod y chwe mis diwethaf, ond mae hyn yn parhau i fod o fewn ein trothwy goddefgarwch. Bydd lefelau atal yn amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos a pha mor gynnar y mae'r unigolyn yn mynd at y tîm. Rydym ni'n gweithio i ddeall y gostyngiad, ond mae llawer iawn o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i dynhau ein prosesau, ac yr ydym ni'n credu bod y sefyllfa bresennol yn adlewyrchiad mwy cywir o berfformiad. Mae'r tîm atal mewnol pwrpasol wedi dechrau yn chwarter 3 yn rhan o'n symudiad i ganolbwyntio ar atal.

Rydym yn datblygu dangosydd ymgysylltu â budd-ddeiliaid i gefnogi'r nod hwn.  Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar arolwg ymgysylltu blynyddol â budd-ddeiliaid.

Nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth i fyw'n annibynnol drwy'r Grant Cymorth Tai yw 2637, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, yr ydym ni wedi adlinio ein dull i ganolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth gan ganolbwyntio'n benodol ar wella canlyniadau symud ymlaen, ac mae cymorth ychwanegol wedi'i gyflwyno o fewn lleoliadau llety dros dro i fodloni anghenion yn well. Yn ogystal â hyn, mae swydd atal ieuenctid bwrpasol wedi'i sefydlu yn y tîm digartrefedd, sy'n cael ei chyflawni mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid, i gryfhau ymyrraeth gynnar a lleihau digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Rydym ni wedi cynnal ein perfformiad ar gyfer tai gwag sy’n cael eu defnyddio eto o fewn 12 mis, a chafodd 79 eu cyflwyno yn 2024 i 2025. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r 5 mlynedd flaenorol, lle'r oeddem yn hanesyddol yn cyfartaleddu tua 32 o dai bob blwyddyn. Gwnaethom ni hefyd wella ychydig ar y nifer a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd wedi bod dros 12 mis yn wag, o 56 i 58 yn ystod 2024 i 2025. Crëwyd 6 o unedau tai hollol newydd trwy dai gwag yn ystod y flwyddyn.

Daethpwyd â 83 o anheddau newydd ymlaen yn ystod 2024 i 2025, i lawr o 142 y flwyddyn flaenorol. Daw safleoedd mawr o 10 neu fwy o dai ymlaen ar wahanol derfynau amser, ac yn enwedig gyda safleoedd o 50+ gallant fod yn gylchol gyda, er enghraifft, 2 flynedd ar gyfer cynllunio a gwaith tir ac yna 2 flynedd arall gyda chwblhau’r tai. Mae gennym lawer o ddatblygiadau mawr yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ond gwelsom gymharol ychydig yn cael eu cwblhau yn 2024 i 2025. Rydym yn disgwyl dros 200 o dai wedi’u cwblhau ar safleoedd mawr yn unig yn 2025 i 2026, gyda thai ychwanegol yn cael eu cwblhau ar safleoedd bach (1 i 9 annedd).

Rydym ni wedi cau ein Sgwrs y Sir yn ddiweddar: Mae Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bydd dangosyddion perthnasol i gefnogi'r nod hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad y tro nesaf.

Erbyn canol y flwyddyn yr oedd y Tîm Addasiadau wedi gwella 54 o anheddau drwy'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl wedi hwyluso gwelliannau o addasiadau i ystafelloedd ymolchi i ad-drefnu cartrefi'n llwyr i sicrhau bod ansawdd bywyd ymgeiswyr yn gwella. Yn ogystal â hyn, mae'r tîm wedi defnyddio'r grant Galluogi i osod offer sefydlog fel lifftiau grisiau a theclynnau codi mewn 10 annedd arall. Mae'r tîm hefyd wedi gweinyddu'r grant Galluogi i Gofal a Thrwsio sydd wedi cwblhau 55 o addasiadau bach e.e. canllawiau a rampiau i eiddo ledled y sir sydd â’r nod o leihau cwympiadau a hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r tîm Addasiadau wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau o gyfartaledd o 12 y mis yn 2024 i 2025 i 20 y mis yn ystod mis Ebrill i fis Medi 2025. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio ar 107 o achosion ac mae 89 o ymgeiswyr eraill ar y rhestr aros. Dros y 6 mis diwethaf mae'r tîm wedi lleihau'r amser aros am gyswllt o 12 mis i 6 mis.

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau y mae aelwydydd yn treulio mewn llety gwely a brecwast wedi gostwng o 173 i 170. Mae nifer cyfartalog y diwrnodau y mae aelwydydd yn treulio mewn llety dros dro arall hefyd wedi gostwng o 529 i 516. Mae hyd arosiadau yn parhau i amrywio’n sylweddol, yn dibynnu ar faint yr eiddo sydd ei angen. Rydym ni’n datblygu llety

dros dro amgen ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer aelwydydd sengl lle mae'r anghydbwysedd mwyaf rhwng cyflenwad a galw. Bu cynnydd mewn cynigion ar gyfer llety dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Gwelwyd cynnydd o 14% rhwng 2024 a 2025 a chynnydd o 22% rhwng 2023 a 2024. Mae nifer yr unigolion sy'n symud i lety addas yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Cynyddodd nifer y bobl sy'n symud i eiddo rhent preifat o 33% o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr aelwydydd mewn llety gwely a brecwast (225, i lawr o 228) a phob math o lety dros dro (354, i lawr o 357) ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.  Dyma'r tro cyntaf ers 2020 nad oes cynnydd wedi bod yn y ffigurau hyn ar gyfer llety gwely a brecwast a phob math o lety dros dro.

Roedd 31 o unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth yn ystod 2024 i 2025. Mae hyn i lawr o 51 o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth drwy'r rhaglen tai fforddiadwy newydd a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn cefnogi dewisiadau symud ymlaen. Mae'r alldro a'r rhagamcanion presennol yn dangos cynnydd sylweddol mewn darpariaeth fforddiadwy a rhagwelwyd y bydd dros 127 o gartrefi yn cael eu darparu eleni.

### 4.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| **Teitl** | **Diwedd blwyddyn 2023 i 2024** | **Canol blwyddyn 2024 i 2025** | **Diwedd blwyddyn 2024 i 2025** | **Canol blwyddyn 2025 i 2026** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar y gofrestr tai cyffredin - **Cyfrif yn unig** | 1951 | 1925 | 1561 | 1543 |
| Nifer yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n profi digartrefedd sy'n cysylltu â Datrysiadau Tai i ofyn am gymorth – **Cyfrif yn Unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 1564 | 808 |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 80%; Trothwy Goddefiant: 70%** | 77.22%<br>Coch<br>Gwaeth | 82.95%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 82.80%<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 73%<br>Oren<br>Gwaeth |

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr aelwydydd a gefnogir i fyw'n annibynnol trwy gyllid Grant Cymorth Tai – **Cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | 2317 | 2665 | 2637 |

### 4.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis y dechreuwyd eu defnyddio eto yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 78<br>Nid yw'r statws yn berthnasol<br>Nid yw'r duedd yn berthnasol | 79<br>Nid yw'r statws yn berthnasol<br>Gwell |
| Nifer yr eiddo gwag yn y sector preifat a oedd yn wag am fwy na 12 mis y dechreuwyd eu defnyddio eto yn ystod y flwyddyn trwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 56<br>Nid yw'r statws yn berthnasol<br>Nid yw'r duedd yn berthnasol | 58<br>Nid yw'r statws yn berthnasol<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a grëwyd trwy ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd – **Cyfrif yn Unig** | 0 | 6 |
| Cyfanswm nifer yr anheddau newydd – **Cyfrif yn Unig** | 142 | 83 |
| Sgwrs y Sir: Dangosydd Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid – **yn cael ei ddatblygu** | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 4.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus blynyddol yr anheddau a wellwyd â'r grant cyfleusterau i bobl anabl – **Wedi'i feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100; Trothwy Goddefiant: 80** | 123<br>Gwyrdd<br>Gwell | 49<br>Gwyrdd<br>Gwell | 105<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 54<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast - **Cyfrif yn Unig** | 146 | 172 | 176 | 170 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a dreuliodd pob aelwyd ddigartref mewn pob math arall o lety dros dro - **Cyfrif yn Unig** | 616 | 531 | 529 | 516 |

### 4.1.4. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Nifer yr aelwydydd mewn llety Gwely a Brecwast ar ddiwedd y cyfnod – **Cyfrif yn Unig** | 228 | 225 |
| Nifer yr aelwydydd ym mhob math o lety dros dro ar ddiwedd y cyfnod – **Cyfrif yn Unig** | 357 | 354 |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a ariennir trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro) a ddarperir yn ôl maint a deiliadaeth -**Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 90; Trothwy Goddefiant: 81** | 51<br>Coch<br>Gwell | 31<br>Coch<br>Gwaeth |

## 4.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Weithgareddau

Mae wyth cam gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae chwech ar y trywydd iawn a dau o fewn y goddefiant.

### 4.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Rhaglen Tai a Digartrefedd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Rhaglen yn cynnwys 3 phrosiect: 1. Tai Fforddiadwy (Safleoedd sy'n Eiddo i'r Cyngor); 2. Ansawdd, Addasu a Chaffael Tai; a 3. Prosiect Gwella Gwasanaethau Tai. Mae'r 3 phrosiect yn cyflawni eu hamcanion a'u buddion ar amser. Prif amcanion y rhaglen yw cynyddu argaeledd tai fforddiadwy, a lleihau'r defnydd o lety dros dro / gwella ei ansawdd yn y cyfamser. Ers sefydlu'r rhaglen, mae'r ddau amcan hyn ar y trywydd iawn i'w cyflawni gyda gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| Strategaeth Tai | Oren<br>O fewn goddefiant | Cyhoeddwyd y Strategaeth Tai Lleol pum mlynedd yn 2018. Adolygwyd a chyhoeddwyd cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn 2025. Bydd y strategaeth wedi'i diweddaru yn cael ei hailenwi'n Strategaeth Tai a Digartrefedd, a bydd yn cynnwys cynlluniau strategol ar draws y gwasanaeth, gan ddileu'r angen am Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar wahân, Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, a Strategaeth Cartrefi Gwag. Mae sesiynau ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn mynd rhagddynt, a disgwylir i'r strategaeth ddrafft gael ei chyflwyno i'w chymeradwyo ym mis Ionawr 2026. |
| Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyhoeddwyd y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym pum mlynedd yn 2022, ac adolygwyd y cynnydd yn erbyn y cynllun ym mis Gorffennaf 2024. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |
| Rhaglen Cymorth Tai | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyhoeddwyd Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai pedair blynedd yn 2022 a'i diweddaru yn 2024, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |
| Strategaeth Cartrefi Gwag | Oren<br>O fewn goddefiant | Cyhoeddwyd y Strategaeth Cartrefi Gwag pum mlynedd yn 2019. Adolygwyd a chyhoeddwyd cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn 2024. Bydd yn cael ei ddisodli yn 2026 gan y Strategaeth Tai a Digartrefedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Lleol Newydd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle a'r Cabinet ym mis Mehefin, derbyniodd y Cyngor etholedig y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, sy'n nodi ein fframwaith ar gyfer defnydd tir yn y sir dros gyfnod o 15 mlynedd. Disgwylir i'n cyflwyniad gael ei archwilio ym mis Mawrth 2026, cyn ei fabwysiadu'n derfynol ym mis Chwefror 2027. Y garreg filltir allweddol nesaf ar gyfer y gwaith yw ymgynghori ar y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd, sy'n cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a Map Cynigion. Cymeradwyodd y Cyngor y rhain ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos yn ystod yr hydref. Bydd dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno'n ôl drwy'r broses wleidyddol er mwyn i'r aelodau graffu arno cyn i ni symud ymlaen i'r camau statudol nesaf. |
| Tai Fforddiadwy | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni wedi hawlio £17.6 miliwn o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chaffael tai fforddiadwy newydd yn 2024 i 2025. Mae hyn yn cynnwys £12.5m o Grant Tai Cymdeithasol (SHG), a £5.1 miliwn ar gyfer Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP). Mae 37 o unedau tai fforddiadwy newydd wedi'u sicrhau o ganlyniad i hyn (9 SHG, a 28 TACP).<br><br>Yn ogystal â hyn, mae 30 o gartrefi gwag wedi cael eu hailddefnyddio fel tai fforddiadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae saith uned wedi ymuno â Chynllun Prydlesu Cymru, cynllun sy'n defnyddio llety'r sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy.<br><br>Mae cyflenwad tai fforddiadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn sylweddol isel. Mae'r problemau y mae'r diwydiant wedi'u hwynebu, fel cynnydd mewn costau adeiladu a chontractwyr yn wynebu anawsterau ariannol wedi effeithio ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r rhaglen gyfalaf yn bwriadu darparu 779 o unedau o dai fforddiadwy dros y tair blynedd nesaf. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Prosiect Tai Gofal Ychwanegol Colwyn | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ar ôl proses ymgeisio gymhleth, ym mis Rhagfyr 2024 llwyddodd Rhaglen Canolbwynt Iechyd, Lles a Chymuned Bae Colwyn i sicrhau cyllid gan Gronfa Tai gyda Gofal Llywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol ar y Cyd. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu hyn, sef y cam nesaf hollbwysig ar gyfer y Rhaglen. Rhagwelir bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2026.<br><br>Yn sail i'r rhaglen gyfan mae'r manteision addysg a hyfforddiant ehangach y bydd y rhaglen yn eu darparu, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r problemau sylweddol sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff y mae'r sector Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn eu hwynebu yn gyffredinol. Dros y 10 mis diwethaf, ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r rhaglen wedi gweithredu rhaglen beilot hyfforddi gweithlu yn llwyddiannus. Mae'r rhaglen beilot wedi cynnwys myfyrwyr lefel 2 a lefel 3 o Goleg Llandrillo yn ymgymryd â lleoliadau gwaith mewn 2 o'n cyfleusterau tai gofal ychwanegol. Mae adborth gan y myfyrwyr presennol a chan y mentoriaid a'r tiwtoriaid wedi bod yn gadarnhaol, ac mae un myfyriwr eisoes yn sicrhau rhywfaint o gyflogaeth ran-amser. |

## 4.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 4.3.1 Ymgysylltu ag Unigolion Digartref

Yn ystod y cyfnod hwn, arweiniodd y Tîm Grant Cymorth Tai ymarfer ymgynghori ar Brofiad o Ddigartrefedd. Cynhaliwyd sgyrsiau mewn 23 o sesiynau â 149 o unigolion. Ar gyfartaledd, parhaodd pob sgwrs am 28 munud, a oedd yn galluogi unigolion i roi adborth ac awgrymiadau ystyrlon. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad wedi ein galluogi ni i ymateb ar unwaith i rai pryderon ynghylch lefelau cymorth a chael gafael ar waith. Yn fwy cyffredinol, bydd yr adborth a'r themâu yn llywio datblygiad y ffrwd waith atal a chefnogi yn y Strategaeth Tai a Digartrefedd.

### 4.3.2. Ymestyn Contractau Tai â Chymorth

Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Cabinet estyniad o ddwy flynedd i'n contractau Tai â Chymorth. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig

â thai sy'n helpu unigolion diamddiffyn i fyw'n annibynnol ac osgoi digartrefedd. Mae'r gwasanaethau craidd a ddarperir yn cynnwys cymorth byw'n annibynnol, atal digartrefedd, integreiddio cymunedol, a chymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion penodol.

### 4.3.3. Premiymau Ail Gartrefi

Mewn cyfarfod ym mis Hydref 2024, cymeradwyodd Gynghorwyr gynnydd dangosol yn lefel y premiwm ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor o 200% o 1 Ebrill 2026, yn amodol ar adolygiad yn ystod 2025 i 2026. Codir premiwm o 300% ar unrhyw eiddo sydd wedi bod yn wag am 4 mlynedd neu fwy. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom ni wahodd trigolion i fynegi eu barn ynghylch premiymau ar gyfer ail gartrefi a thai gwag hirdymor, yn ogystal â chysylltu â phawb sydd wedi cofrestru fel perchennog ail gartref i ofyn am eu barn. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i ddemocratiaeth yn ddiweddarach eleni pan fyddan nhw’n ystyried y penderfyniad terfynol.

# Nod 5. Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maen nhw’n teimlo’n ddiogel.

I ddarllen am gefndir y Nod hwn yn fanylach, ewch i'n gwefan: Nod 5

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 5.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Ym mis Medi, yr oedd 621,618 o bobl wedi bod i ganolfannau hamdden ers mis Ebrill. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (523,259), ac yr ydym ni’n obeithiol y byddwn ni’n cyrraedd ein targed o 1,066,016 o ymweliadau erbyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn aros am ddiweddariadau i'r Dangosyddion Lles Cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gyfer mesur pobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol. Rhwng 2022 a 2023, yr oedd 10% o bobl yng Nghonwy yn byw mewn amddifadedd materol (yr ail orau yng Nghymru). Fodd bynnag, rhwng 2023 a 2024, yr oedd 11.8% o blant yng Nghonwy yn byw mewn aelwydydd di-waith (cynnydd o 7.5% fel yr oedd y flwyddyn flaenorol), ac yr oedd 30% yn byw mewn tlodi.

Rydym wedi cau ein Sgwrs y Sir yn ddiweddar: Mae Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Bydd dangosyddion perthnasol i gefnogi'r nod hwn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad y tro nesaf.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, gwnaethom ni gwblhau 101 o asesiadau newydd ar gyfer plant, cynnydd o 15 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. Roedd canran y plant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant, a'r rhai a oedd yn derbyn gofal a welwyd o fewn yr amserlenni statudol, yn 92% ym mis Medi.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2025, cynyddodd canran y staff newydd a gwblhaodd ein hyfforddiant diogelu gorfodol i 53.9%, o'i gymharu â'r 6 mis blaenorol o 51%. Mae hyn yn cynrychioli 256 o staff allan o 475. Er gwaethaf y cynnydd, mae'n berfformiad is nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2024. Rydym ni’n digideiddio’r drefn sefydlu mewn gwasanaethau a bydd rheolwyr atebol yn cael eu hatgoffa bod yn rhaid i'w staff newydd gwblhau'r hyfforddiant.

Byddwn ni’n datblygu’r ffordd yr ydym ni’n mesur asesiadau o anghenion Gofalwyr yn dilyn cyflwyno cyfrifiad newydd o fis Ebrill 2025. Bydd data’n cael ei gasglu am y tro cyntaf ar gyfer 2025 i 2026, a bydd Canllawiau’n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Canran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni yn ystod 2024 i 2025 oedd 88% (70 allan o 80 o gynadleddau) sy’n ostyngiad o 98%. Mae pob Cynhadledd Amddiffyn Plant yn anelu at fod o fewn y canllawiau statudol, ac mae'r mwyafrif yn gwneud hynny, fodd bynnag, mae rhai achlysuron pan fydd angen i ni aildrefnu'r cyfarfodydd hyn i alluogi cyfranogiad llawn ac i sicrhau bod rhieni'n bresennol. Er enghraifft, gellir ail-drefnu cynadleddau yn ôl disgresiwn y cadeirydd os bydd gofyn i rieni fynd i achosion llys, os ydyn nhw wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar cyn eu dyddiad geni disgwyliedig, neu os nad ydyn nhw yn y wlad ar ôl gwneud y penderfyniad i gyflwyno’r mater mewn cynhadledd. Er bod yr amgylchiadau hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni cydymffurfiaeth lawn, mae manteision cyfranogiad rhieni yn amlwg wrth gefnogi newid a lleihau risg.

O ran cynlluniau gofal a chymorth i oedolion, mae angen adolygu cyfartaledd o 280 bob mis. Yn ystod 2024 i 2025, adolygwyd 35% yn ystod y flwyddyn, i lawr o 37% yn 2023 i 2024. Bu cynnydd yn nifer yr oedolion sydd ar agor i'r gwasanaeth a chynlluniau i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn. Er bod gennym broblemau sylweddol o ran capasiti o ran amser gwaith cymdeithasol dynodedig i gynnal adolygiadau, mae hyn wedi'i gydnabod yn ffocws allweddol ar gyfer 2025 i 2026. Wedi dweud hynny, mae'n anodd dyrannu capasiti i adolygiadau pan fo'r flaenoriaeth genedlaethol yr ydym ni’n cael ein mesur yn ei herbyn yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion, sy'n amsugno capasiti gwaith cymdeithasol. Rydym ni hefyd yn adolygu ein data ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cofnodi'n gywir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau adrodd sy'n effeithio ar y ffigurau yr ydym ni’n eu hadrodd.

Roedd canran yr ymholiadau cam-drin oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn 98% ar ddiwedd 2024 i 2025, i fyny o 96% y flwyddyn flaenorol. O blith 1145 o ymholiadau, cwblhawyd 1127 o fewn 7 diwrnod.

Cynyddodd canran yr ymweliadau â phlant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol o 92% i 97% yn ystod 2024 i 2025. Cynyddodd canran yr ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn y terfynau amser hefyd o 92% i 94% ar gyfer 2024 i 2025. Bu cynnydd

yn nifer yr ymweliadau sydd eu hangen; fodd bynnag, mae mwy wedi'u cwblhau o fewn y terfynau amser statudol nag yn y flwyddyn flaenorol. Rydym ni'n aros am ddata meincnodi, ond ar gyfer 2023 i 2024, mae ein perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73.4%.

### 5.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| **Teitl** | **Diwedd blwyddyn 2023 i 2024** | **Canol blwyddyn 2024 i 2025** | **Diwedd blwyddyn 2024 i 2025** | **Canol blwyddyn 2025 i 2026** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus y presenoldebau mewn Canolfannau Hamdden – **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 1,066,016; Trothwy Goddefiant: 1,046,016** | 1,066,016<br>Gwyrdd<br>Gwell | 523,259<br>Oren<br>Gwaeth | 1,171,982<br>Gwyrdd<br>Gwell | 621,618<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 5.1.2. Dangosyddion Blynyddol (Effaith)

| **Teitl** | **2023 i 2024** | **2024 i 2025** |
|---|---|---|
| Nifer y bobl ag Aelodaeth Ffit Conwy - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 8,500; Trothwy Goddefiant: 7,640** | 7708<br>Gwyrdd<br>Gwell | 8229<br>Oren<br>Gwell |
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol (pob oedran) – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | Aros am ddata cenedlaethol | Aros am ddata cenedlaethol |
| Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: Chwartel Uchaf; Trothwy Goddefiant: Chwartel Canolrif** | 11.8<br>Coch<br>Gwaeth | Aros am ddata cenedlaethol |
| Sgwrs y Sir: Dangosydd Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid – **yn cael ei ddatblygu** | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 | Newydd ar gyfer 2025 i 2026 |

### 5.1.3. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cronnus nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle mae tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld – **Cyfrif yn Unig** | 170 | 86 | 170 | 101 |
| Canran staff newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol** **Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 58.76% Coch Gwell | 70.50% Coch Gwell | 51% Coch Gwaeth | 53.9% Coch Gwaeth |
| Asesiadau Anghenion Gofalwyr – **yn cael eu datblygu** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

### 5.1.4. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol - **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** **Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 98.0% Coch Amherthnasol | 87.5% Coch Gwaeth |
| Canran y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** **Targed: Blwyddyn sylfaen; Trothwy Goddefiant: Blwyddyn sylfaen** | 36.6% Nid yw'r statws yn berthnasol Nid yw'r duedd yn berthnasol | 34.5% Nid yw'r statws yn berthnasol Gwaeth |
| Canran yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl cael yr adroddiad o gam-drin honedig ar gyfer oedolion – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol** **Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: 76%** | 96.3% Coch Gwaeth | 98.4% Oren Gwell |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran yr ymweliadau â phlant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 92.2%<br>Coch<br>Gwell | 97.4%<br>Coch<br>Gwell |
| Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn y terfynau amser statudol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 100%; Trothwy Goddefiant: Dim goddefiant** | 92.3%<br>Coch<br>Amherthnasol | 93.5%<br>Coch<br>Gwell |

## 5.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae un ar ddeg o weithgareddau gwella wedi'u rhestru yn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae dau wedi'u cwblhau ac mae naw ar y trywydd iawn.

### 5.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Moderneiddio Rhaglen Gofal Cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ailfodelu yn y Gwasanaeth Pobl Hŷn i ddatblygu ein hadran Adnoddau a Gomisiynir yn gwella goruchwyliaeth o weithgareddau comisiynu a rheoli'r broses Gofal Iechyd Parhaus. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u comisiynu yn seiliedig ar angen.<br>Ymunodd gwesteion arbennig o Glwb Rygbi Stingrays Bae Colwyn â dathliadau agoriadol swyddogol Planhigfa a Chaffi Bryn Euryn ym mis Mai. Mae'r gwaith ailddatblygu, a ariennir gan y Cyngor, yn darparu canolfan arddio, siop a chaffi pwrpasol ar Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos, ac mae cyllid ychwanegol o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn cefnogi costau staff a chontractau'r caffi. Mae'r cyfleuster sydd wedi'i reoli gan ein Gwasanaeth Anabledd, yn rhoi cyfleoedd hanfodol a mentora i bobl ag anableddau ac sy'n dymuno cael swydd gyflogedig. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cysylltu Gofal | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ym mis Mehefin, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adroddiad cynnydd ar weithredu rhaglen Cysylltu Gofal Llywodraeth Cymru a chyflawni'r system Mosaic newydd. Mae Mosaic yn system rheoli achosion electronig sydd wedi'i chaffael i gefnogi darpariaeth gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol y rhaglen Cysylltu Gofal.  Ers y diweddariad diwethaf, mae cyllid ar gyfer 2025 i 2026 wedi'i gadarnhau ac mae'r prosiect ar y trywydd iawn. |
| Dull Ysgol Gyfan ar gyfer â Lles Meddyliol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol yn parhau i gael ei ymgorffori ar draws ysgolion Conwy, ac mae'n canolbwyntio'n fawr ar ddulliau cydweithredol o weithio, sy'n seiliedig ar glystyrau, a chefnogaeth wedi'i theilwra. Mae'r dull clwstwr yn hyrwyddo dysgu gan gymheiriaid, cysondeb ac arferion a rennir, ochr yn ochr â chanllawiau unigol a ddarperir trwy ymweliadau i ysgolion. Mae'r ymgysylltiadau hyn yn helpu i sicrhau aliniad â fframwaith y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol, ac yn cynnig cymorth wedi'i dargedu yn seiliedig ar anghenion pob ysgol. Yn sail i'r gwaith hwn mae sianel Teams gynhwysfawr, sy'n cynnig casgliad a guradwyd o adnoddau a ddewiswyd yn benodol i gefnogi ysgolion i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Er bod heriau'n parhau mewn ysgolion o ran adnoddau, mae ymdrechion strategol yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu'r fframwaith fel blaenoriaeth allweddol wrth gynllunio a chyflwyno. |
| Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gofal Cymdeithasol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae amcanion allweddol y gwasanaeth wedi'u halinio â'r 'Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol' dan bedwar maes ansawdd: 1. Pobl, 2. Atal, 3.  Partneriaethau ac Integreiddio, a 4. Lles. Dyma sail y Cynllun Gwasanaeth newydd ac mae yn y broses o gael ei gymeradwyo a'i weithredu. Bydd y manylion yn y Cynllun Gwasanaeth yn caniatáu i ni fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant, a bydd hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol ag Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwyr, sydd ar gael i'r cyhoedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
| --- | --- | --- |
| Newid y ffordd yr ydym ni'n comisiynu gofal yn y cartref yng ngwasanaethau pobl hŷn. | Cwblhawyd | Rydym ni wedi llwyddo i gyflwyno gwaith lleol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl hŷn yn unol â'n cynlluniau comisiynu. Mae'r gwasanaethau'n gweithredu'n dda iawn. Rydym ni yn awr yn gweithio i alinio gwasanaethau gofal yn y cartref i bobl anabl yn yr un modd. Bydd y prosiect yn awr yn dod i ben. |
| Strategaeth Trechu Tlodi | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni wedi bod yn paratoi gweithdy â rheolwyr ym mis Rhagfyr i fwrw ymlaen â datblygu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Trechu Tlodi, a sicrhau perchnogaeth ar draws yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae tlodi yn ei olygu i swyddogion unigol, yr hyn y mae gwasanaethau eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi, a bydd yn helpu i nodi lle mae'r bylchau. Bydd allbwn y gweithdy yn ein galluogi ni i gwblhau'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, a fydd yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ddemocrataidd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Maethu Cymru Conwy | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae ymdrechion i gryfhau darpariaeth gofal maeth mewnol ar waith, mae mentrau newydd yn cael eu cyflwyno ac mae rhagor o ddewisiadau yn cael eu harchwilio.<br><br>Yn ystod Pythefnos Gofal Maeth ym mis Mai, rhannodd pobl ifanc â phrofiad o ofal y perthnasoedd maeth a newidiodd eu bywydau. Mae'r straeon a rennir yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd ystyrlon a ddatblygir drwy'r gymuned maethu, a sut y gall y perthnasoedd hyn helpu i newid bywydau er gwell. I ddysgu rhagor ynghylch dod yn ofalwr maeth yng Nghonwy, ewch i'n gwefan Maethu Cymru Conwy.<br><br>Roedd Gwasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol Gogledd Cymru yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst er mwyn ceisio annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ystyried mabwysiadu. Roedd eu stondin yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau i helpu i gychwyn sgyrsiau am y broses fabwysiadu, ac yn ceisio chwalu mythau a chodi ymwybyddiaeth y gellir cael cymorth a hyfforddiant mabwysiadu yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Cafodd ein Gwasanaeth Maethu arolwg ym mis Tachwedd 2024, ac ni nodwyd unrhyw feysydd nad oedd yn cydymffurfio â rheoliadau nac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad yn gadarnhaol ac mae'n cydnabod nifer o arferion da yn ein gwasanaeth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol Cymru | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae Safonau Masnach yn parhau i weithio â phartneriaid sy'n ymchwilio i safleoedd sy'n peri problemau sy'n gwerthu tybaco anghyfreithlon a fêps anghyfreithlon. Yn ogystal â hyn, mae'r archwiliadau o safleoedd trwyddedig gweithredwyr cerbydau hurio preifat, canolfannau gemau i oedolion, masnachwyr stryd, cerbydau a safleoedd cadw anifeiliaid wedi'u cwblhau ond byddan nhw'n parhau.<br><br>Cafwyd 290 o gwynion/Ceisiadau Gwasanaeth ynghylch sŵn, a chyflwynwyd 8 Hysbysiad Lleihau Sŵn.<br><br>Cafwyd 128 o geisiadau gwasanaeth yn ymwneud â chyflwr tai ac ymchwiliwyd iddynt.<br><br>Mae monitro ansawdd yr aer yn fisol ar gyfer nitrogen deuocsid yn parhau ar draws y safleoedd rhwydwaith i gyd, a bydd nifer o arwyddion sy'n nodi na ddylid gadael i injan cerbydau redeg pan fyddan nhw'n llonydd yn cael eu gosod y tu allan i safleoedd ysgolion yn y sir.<br><br>Rydym ni'n aros i'r dosbarthiadau ar gyfer pob lleoliad dŵr ymdrochi gael eu cyhoeddi. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu model arwyddion tebyg i Gonwy yn dilyn argymhelliad gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel enghraifft o arfer da. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar Ddiogelu | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ni. Mae ein Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025 i 2026 yn nodi'r camau gweithredu allweddol i gadw pobl yn ddiogel ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddiogelu.<br><br>Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cynllun cyfathrebu a dull wedi'i dargedu ar gyfer gwella, ar y cyd â rhwydwaith y Rheolwyr Diogelu Dynodedig. Yn ogystal â hyn, er ein bod ni ar gam ymchwiliol, yr ydym ni hefyd yn edrych ar fodiwl e-ddysgu arall a fyddai'n galluogi mwy o ddata amser gwirioneddol a data sy'n haws i reolwyr atebol ei adolygu a'i drafod â'u hadroddiadau uniongyrchol yn eu Sgyrsiau Conwy rheolaidd.<br><br>Mae digideiddio'r broses sefydlu yn y gwasanaeth ar fin cael ei chwblhau, a bydd hyn yn galluogi gwell llywodraethu ac adolygiad o gwblhau cyfnodau prawf ar gyfer dechreuwyr newydd, na ddylid eu cymeradwyo os nad yw hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau. Y neges allweddol y mae angen i ni barhau i'w hymgorffori yw pam mae hyfforddiant diogelu mor bwysig, a pham ei bod hi'n hanfodol ein bod ni i gyd yn wyliadwrus o unrhyw bryder yn rhan o'n cyfrifoldeb ar y cyd i ddiogelu.<br><br>Bydd Wythnos Diogelu ym mis Tachwedd yn rhoi cyfle i staff gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys "sesiynau briffio 7 munud" byr, a sesiynau hyfforddi lleol a rhanbarthol ar themâu diogelu pwysig. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Strategaeth Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol - darpariaeth leol | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni'n parhau i weithio ar y cyd ar draws y rhanbarth ar Droseddau Treisgar Difrifol. Rydym ni wedi llwyddo i sicrhau cyllid grant ychwanegol o £74,000 gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer cyflawni gwaith atal trais difrifol ymhlith pobl ifanc yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Cafwyd cyllid hefyd i gefnogi Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych, gwasanaethau Ieuenctid Conwy, a rhaglen ysgolion 'Peidiwch â dwyn fy nyfodol' i dargedu'r unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-fanteisio. Mae'r gwaith ar y cyd yn parhau'n lleol â Bwrdd Gweithredol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a datblygu cynhyrchion dadansoddol i helpu i arwain ein gwaith a helpu i atal niwed a diogelu pobl ifanc. Rydym ni wedi parhau â'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o droseddu ar-lein a cham-drin domestig. Rydym ni hefyd wedi parhau â'n Grŵp Atal Troseddu Cyfundrefnol lleol, sydd wedi esblygu i fod yn hanfodol ar gyfer rhannu gwybodaeth mewn amser gwirioneddol i gynorthwyo ag atal troseddu cyfundrefnol, a diogelu'r unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-fanteisio.<br>Ym mis Mai gwnaethom ni hyrwyddo Cronfa Cydlyniant Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru 2025, a oedd yn derbyn ceisiadau tan fis Mehefin ar gyfer sefydliadau yng Nghonwy, Ynys Môn neu Wynedd. Roedd rhwng £500 a £5,000 o gyllid ar gael, a oedd yn cael ei weinyddu gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru, er mwyn cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n dod â chymunedau ynghyd ac yn helpu i hwyluso Cydlyniant Cymunedol. |
| Prosiect Unigolyn Cyfrifol y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA) | Cwblhawyd | Mae model diwygiedig ar gyfer cyflawni dyletswyddau statudol "Unigolyn Cyfrifol" RISCA wedi'i roi ar waith, ac mae wedi gwella gallu'r gwasanaeth i gyflawni cyfrifoldebau a reoleiddir mewn gofal preswyl ac yn y cartref. Mae'r model hwn yn cefnogi gwelliannau i ansawdd gwasanaethau drwy fonitro a hyrwyddo arferion gorau. Bydd y prosiect yn awr yn dod i ben. |

## 5.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Digwyddodd yr eitemau newyddion a phwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 5.3.1. Campfa Ffit Conwy Newydd

Ym mis Mehefin agorwyd campfa newydd Ffit Conwy yn Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn yn ffurfiol, â chefnogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae'r cyfleusterau newydd yn ehangu ein cynnig i'r gymuned ac yn dangos ein hymrwymiad i iechyd a lles trigolion. Gweithiwyd mewn partneriaeth ag Ysgol y Creuddyn a bydd gan ddisgyblion fynediad i'r gampfa a sesiynau dan arweiniad hyfforddwr Ffit Conwy yn ystod oriau ysgol, gan eu hannog nhw i fyw bywydau egnïol ac iach.

### 5.3.2. Adnoddau Lles

Lansiwyd gwefan newydd sy'n darparu adnoddau i gefnogi plant a theuluoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Nod yr adnoddau sy’n seiliedig ar brofiadau a lleisiau plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol profiadol, yw cefnogi iechyd emosiynol, lles a gwydnwch plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Fe'u datblygwyd gan bartneriaid o bob cwr o'r rhanbarth, gan gynnwys ysgolion, addysg, iechyd a gwasanaethau plant, o ganlyniad i gydweithio trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant a Swyddogion Chwarae.

### 5.3.3. Strategaeth Toiledau Lleol

Ystyriwyd diweddariad ychwanegol ar gynnydd ein Strategaeth Toiledau ym mis Awst gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Economi a Lle. Yn unol â'r cynlluniau i fodloni anghenion y dyfodol a darparu toiledau cyhoeddus niwtral o ran cost, mae gwasanaeth toiledau cyhoeddus diwygiedig wedi'i roi ar waith sy'n cynnwys agor rhai cyfleusterau yn dymhorol. Mae cydweithio â chynghorau tref a chymuned ar gyfer 2025 i 2026 wedi bod yn gadarnhaol, gan gefnogi toiledau cyhoeddus i aros ar agor ar draws naw ward. Gall y cyhoedd hefyd gael mynediad at doiledau mewn 20 o adeiladau presennol y Cyngor, fel swyddfeydd, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, ac mae rhagor o doiledau ar gael trwy ein cynllun toiledau cymunedol. Mae cau toiledau yn benderfyniad anodd, ond o ystyried y pwysau cyllidebol sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, mae angen cyfleusterau y telir amdanynt a nawdd i gadw cyfleusterau ar agor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.

### 5.3.4. Wythnos Ymwybyddiaeth Anableddau Dysgu

Thema Wythnos Ymwybyddiaeth Anableddau Dysgu ym mis Mehefin eleni oedd “Wyt ti’n fy ngweld?”, a oedd yn canolbwyntio ar helpu pobl ag anableddau dysgu i gael eu gweld, eu gwerthfawrogi a’u cynnwys. Cynlluniwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cerdded a beicio ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Cafodd yr holl grwpiau dan sylw gefnogaeth gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a chyllid gan Gronfa Integreiddio Ranbarthol i gefnogi gweithgareddau Wythnos Ymwybyddiaeth Anableddau Dysgu.

### 5.3.5. Cefnogi Pobl Hŷn

Rydym ni’n gweithio mewn partneriaeth ag Age Connects Wales a holl aelodau’r Rhwydwaith Budd-ddeiliaid Oed Gyfeillgar tuag at gydnabyddiaeth swyddogol gan Sefydliad Iechyd y Byd fel sir sy'n ystyriol o bob oed. Mae'r fenter fyd-eang hon wedi'i chynllunio i helpu cymunedau i gael gwared ar rwystrau a gwella ansawdd bywyd y boblogaeth sy'n heneiddio. Mae gweithio tuag at y gydnabyddiaeth hon hefyd yn cefnogi Strategaeth Cymru o blaid pobl hŷn Llywodraeth Cymru ac fe'i cefnogir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. I gefnogi ein cais a helpu i lunio dyfodol heneiddio yng Nghonwy, lansiwyd arolwg ym mis Gorffennaf i annog trigolion i ddweud eu dweud.

Ym mis Awst, ein hymateb strategol i adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Dim Mynediad: Ystyriwyd Profiadau Pobl Hŷn o Allgáu Digidol yng Nghymru (Ionawr 2024) gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle. Mae ein cynllun gweithredu wedi’i seilio ar y pum amcan allweddol canlynol:

- Cynnal mynediad nad yw'n ddigidol.
- Gwella hygyrchedd a sianeli cyswllt.
- Hyrwyddo cynhwysiant digidol.
- Cryfhau llywodraethu.
- Ymgorffori dylunio gwasanaethau cynhwysol.

Bydd cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ddiweddariadau ym mis Medi ar arolygiad a gynhaliwyd yn Llys Elian, ym mis Medi 2024 yn gyntaf, ac yna cafwyd ail archwiliad ym mis Ebrill. Gwnaeth yr archwiliad cyntaf nodi un Hysbysiad Cam Blaenoriaeth a dau faes arall i’w gwella. Cymerwyd camau brys i fynd i'r afael â'r maes

pryder a lluniwyd a chwblhawyd cynllun gweithredu manwl. Ar ôl yr ail archwiliad ym mis Ebrill, tynnodd AGC yr Hysbysiad Cam Blaenoriaeth a'r ddau faes i'w gwella. Gwnaeth AGC asesu'r gwasanaeth a rhoi sgôr 'da' iddo ar draws pob un o'r pedair thema Arolygu sef Lles, Gofal a Chymorth, Amgylchedd, ac Arwain a Rheoli.

### 5.3.6. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Galw ar y Gwasanaeth

Ym mis Medi, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ddau adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y galw ar y gwasanaeth.  Roedd yr adroddiad ar y Galw am Wasanaethau Anableddau yn manylu ar y tueddiadau a'r pwysau cynyddol mewn cysylltiad â bodloni anghenion pobl ag anableddau. Nodwyd yr adroddiad, ynghyd â'r pwysau ar y gwasanaeth, a'r gwaith a wnaed eisoes i reoli'r galw yn y meini prawf cymhwyso. Er mwyn ymdopi â'r pwysau o ran y galw yn y dyfodol, cytunwyd y byddai angen achos busnes yn rhan o'r broses o osod cyllideb 2025 i 2026.

Roedd yr adroddiad ar y Galw am Ofal i Bobl Hŷn yn manylu ar y tueddiadau a'r pwysau cynyddol mewn cysylltiad â bodloni anghenion gofal a chymorth pobl hŷn yn y sir. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif bwysau, gan nodi, yn unol â thueddiadau poblogaeth, bod cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n dod atom ni i gael asesiad. Yn rhinwedd eu hoedran a'u hanghenion cymhleth mae'r gwasanaeth yn ei chael yn anodd ymdopi â'r galw hwnnw ac i fodloni'r anghenion hynny o fewn ei ddyraniad presennol o adnoddau a chyllideb. Unwaith eto, cytunwyd bod angen achos busnes yn rhan o'r broses o osod cyllideb 2026 i 2027 er mwyn bodloni'r pwysau ar y galw yn y dyfodol.

### 5.3.7. Mwy Na Geiriau

Mwy Na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Ebrill, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adroddiad cynnydd ynghylch sut y cafodd ei roi ar waith yng Nghonwy. Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2024, cynhaliwyd 20 o gyrsiau hyfforddi. Roedd 261 o weithwyr gofal cymdeithasol yn y sector gofal wedi cwblhau'r cwrs. O'r rhain, yr oedd 190 ohonyn nhw'n weithwyr Gofal Cymdeithasol Conwy, sy'n cynrychioli 21% o'n gweithlu. Cyfanswm y cyfranogwyr o sefydliadau allanol oedd 71 hyd at fis Rhagfyr 2024 ac yr ydym ni'n annog mwy o gyfranogwyr o'r sector gofal cymdeithasol ehangach i ddod i'r cyrsiau yn y dyfodol. Gofynnodd y pwyllgor i'r adroddiad nesaf gynnwys archwiliad o'r hyfforddiant sy'n cael ei gyflwyno a'r canlyniadau ar gyfer

darparwyr gofal allanol, yn ogystal â gwybodaeth am fanteision ymweliadau monitro ddwywaith y flwyddyn gan ddarparwyr gofal allanol.

### 5.3.8. Diogelwch Cymunedol

Roeddem ni wrth ein bodd yn cael cyhoeddi ym mis Gorffennaf fod ein Gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig wedi cael cyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i barhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y cyllid o £375,000 yn galluogi recriwtio gweithredwyr teledu cylch caeedig ychwanegol ac yn cefnogi gwaith swyddogion gorfodi Gwarchod y Cyhoedd i gynnal ymchwiliadau. Ychwanegodd cyllid blaenorol ddeuddeg camera teledu cylch caeedig symudol at y rhwydwaith, y gellir eu symud i ganolbwyntio ar ardaloedd problemus ac ad-droseddwyr.

Mae estyniad tair blynedd wedi'i roi i Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i atal troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nhref Conwy. Gwahoddwyd trigolion lleol, perchnogion busnesau a chynghorwyr i gyflwyno eu barn ynghylch ymestyn y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus, a gyflwynwyd gyntaf ym mis Mai 2022. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau a drwy weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru yr ydym ni wedi ymestyn y gorchymyn dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn er budd trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr.

Yn dilyn cwynion gan drigolion pryderus, gwnaeth Swyddogion Safonau Masnach gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru archwilio a chau siopau ar unwaith yng Nghyffordd Llandudno a Llandudno am fasnachu nwyddau ffug, niweidiol ac anghyfreithlon.

Yn dilyn adroddiadau am bobl yn cael negeseuon testun yn dweud eu bod nhw wedi cael dirwyon parcio sy’n cynnwys dolen i dalu trwy wefan .gov ffug, gwnaethom ni rybuddio trigolion ac ymwelwyr i fod yn ymwybodol o negeseuon testun sgâm. Gwnaethom ni godi ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am wefannau sgam a chadarnhau nad ydym ni’n anfon dirwyon parcio drwy neges destun, gan gyhoeddi manylion y dulliau talu yr ydym ni’n eu derbyn ar gyfer parcio.

### 5.3.9. Byddwch yn Barod!

Yn ystod mis Medi, rydym ni wedi bod yn paratoi ar gyfer y gaeaf drwy gynnal hyfforddiant i yrwyr ac ymgyfarwyddo â ffyrdd ledled y sir. Gan fod mis Medi yn fis Paratoi, gwnaethom

ni hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i godi ymwybyddiaeth o risgiau cymunedol a sut i baratoi ar gyfer argyfyngau, fel tywydd garw. Mae cyngor a chymorth defnyddiol ar ein gwefan – Paratoi ar gyfer Argyfyngau.

### 5.3.10. Gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ddiweddariad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar ddarpariaeth gwasanaethau ledled Gogledd Cymru yn 2024 i 2025, gan roi cyfle i aelodau ofyn cwestiynau ar berfformiad a chanlyniadau. Codwyd pryderon ynghylch meysydd i'w gwella fel derbyniadau, oedi wrth gael cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau cymunedol i unigolion â chysylltiadau cludiant gwael, cael gafael ar wasanaethau deintyddol, ac oedi wrth gael gafael ar wasanaethau arferol fel Fflebotomi. Gofynnwyd am gadarnhad bod materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd bellach wedi'u datrys, a gofynnodd yr aelodau am ddiweddariadau ar gyflwyno apwyntiadau blaenoriaeth i ofalwyr ar draws meddygfeydd teulu. Roedd trafodaethau ychwanegol yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, y galw am wasanaethau, a gofynion isadeiledd y bwrdd iechyd.

# 6. Atodol - Swyddogaethau Llywodraethu

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gyrraedd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

I gefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fod yn wydn, mae'r penodau canlynol yn ystyried y camau i wella a'r datblygiadau (gan gynnwys newyddion ac eitemau pwyllgor) sydd wedi'u cyflawni yn ystod 2024 i 2025 i gefnogi'r saith maes llywodraethu, sef Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Rheoli Perfformiad, Rheoli Risg, Cynllunio'r Gweithlu, Rheoli Asedau a Chaffael.

## 6.1. Y Newyddion Diweddaraf ar Fesurau

Mae'r mesurau a'r gweithgaredd canlynol yn cwmpasu meysydd llywodraethu allweddol, yn atodol i'r mesurau a'r gweithgaredd hynny a nodwyd yn Nod 1 i gefnogi bod yn Gyngor gwydn.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi, ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel gan archwilio mewnol. Nid yw 67% o'r camau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau rheoleiddio allanol wedi'u cwblhau eto. Mae'r ffordd yr ydym ni'n cydymffurfio ag archwiliadau Rheoleiddio Allanol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

Er nad ydym ni wedi cynnal unrhyw wiriadau iechyd yn rhan o'r prosiect yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, mae 4 wedi'u trefnu rhwng mis Hydref 2025 a mis Mawrth 2026.

Mae'r llythyr blynyddol gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cadarnhau nad oes unrhyw gwynion wedi'u gwneud yn ein herbyn ni yn ystod 2024 i 2025, felly rydym ni'n cynnal ein llwyddiant o'r flwyddyn flaenorol. O ran y cwynion y gwnaethom ni ymdrin â nhw, cadarnhawyd 39% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gyson â 2023 i 2024.

Mae presenoldeb aelodau etholedig mewn cyfarfodydd yn parhau i fod yn uchel, sef 85%, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (86%).

Rydym ni wedi wynebu anawsterau â'n mesur ar gyfer hyfforddiant aelodau, gan nad yw'r data ar hyn o bryd yn rhoi darlun cywir o'r hyfforddiant a gwblhawyd. Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sut y gallem ni gasglu'r wybodaeth hon yn fwy cywir.

### 6.1.1. Dangosyddion Chwemisol (Effaith)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Y nifer cronnus blynyddol o adroddiadau archwilio mewnol sicrwydd isel – **Wedi'u Meincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 3; Trothwy Goddefiant: 5** | 6<br>Coch<br>Gwaeth | 1<br>Gwyrdd<br>Gwell | 2<br>Gwyrdd<br>Gwell | 0<br>Gwyrdd<br>Gwell |

### 6.1.2. Mesurau Perfformiad Chwemisol (Ymdrech)

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 | Diwedd blwyddyn 2024 i 2025 | Canol blwyddyn 2025 i 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y camau gweithredu sy'n weddill i weithredu arnynt o argymhellion allanol – **Cyfrif yn Unig** | 66% | 43% | 47% | 67% |
| Nifer y Gwiriadau Iechyd rhaglen / prosiect sydd wedi'u cwblhau yn ystod y 6 mis diwethaf – **Wedi'u Meincnodi'n Lleol**<br>**Targed: 2; Trothwy Goddefiant: 1** | 1<br>Gwyrdd<br>Yr un fath | 3<br>Gwyrdd<br>Gwell | 4<br>Gwyrdd<br>Gwell | 0<br>Coch<br>Gwaeth |

### 6.1.3. Mesurau Perfformiad Blynyddol (Ymdrech)

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Canran y cwynion a gadarnhawyd gan yr Ombwdsmon yn erbyn yr awdurdod lleol – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 0%; Trothwy Goddefiant: 5%** | 0%<br>Gwyrdd<br>Aros am ddata | 0%<br>Gwyrdd<br>Aros am ddata |
| Canran y cwynion a gadarnhawyd – **Wedi'i Feincnodi'n Genedlaethol**<br>**Targed: 30%; Trothwy Goddefiant: 40%** | 37%<br>Oren<br>Gwaeth | 39%<br>Oren<br>Gwaeth |
| Presenoldeb disgwyliedig aelodau a'r flwyddyn bresennol hyd yma – **Cyfrif yn Unig** | 86% | 85% |

| Teitl | 2023 i 2024 | 2024 i 2025 |
|---|---|---|
| Hyfforddiant Aelodau - **Yn cael ei ddatblygu** | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 6.2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Weithgareddau

Mae deuddeg o weithgareddau gwella wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae naw ar y trywydd iawn, mae dau o fewn y goddefiant, ac ni ddisgwylir i un ddechrau eto.

### 6.2.1. Gweithgareddau (Ymdrech)

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu Hunanasesu:** Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni wedi gwneud cynnydd da i adolygu nifer o gydrannau allweddol sy'n cefnogi ein Fframwaith Rheoli Perfformiad, sef ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad; y broses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth; ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig a'n fframwaith ategol; a'n proses ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Yn ystod yr Haf gwnaethom ni weithio i ddiweddaru ein Fframwaith Rheoli Perfformiad / Canllaw i Reoli Perfformiad. Rydym ni wrthi'n cael mewnbwn staff cyn cael cymeradwyaeth ddemocrataidd ym mis Hydref. Bydd rhaglen hyfforddi i staff ac aelodau yn cael ei chyflwyno wedi hynny. |
| **Camau Gwella:** Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ni wedi cwblhau adolygiad sylweddol o'n Cofrestr Risgiau Gorfforaethol ac wedi diweddaru ein Fframwaith Rheoli Risg â'r newidiadau angenrheidiol yn dilyn hynny. Ar hyn o bryd rydym ni'n cael mewnbwn gan swyddogion ac aelodau ar y fframwaith / Canllaw Rheoli Risgiau wedi'i ddiweddaru, a gofynnir am gymeradwyaeth ddemocrataidd ym mis Hydref. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno i aelodau a staff. |
| Diweddaru Asesiad Llesiant gyda phartneriaid | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae trafodaethau cynnar iawn wedi dechrau gyda phartneriaid ynghylch ein dull o ddiweddaru Asesiad Llesiant y BGC, gyda'r capasiti yn bryder mwyaf dybryd ar hyn o bryd. Rydym yn archwilio nifer o opsiynau i helpu gyda'r gwaith hwn. Bydd cyfarfod allweddol o Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru ym mis Medi i drafod cynigion ar gyfer model i gyflawni'r asesiad wedi'i ddiweddaru. |
| Datblygu Cynllun Corfforaethol 2027 i 2032 | Heb ei ddechrau | Bydd Swyddogion Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn cyfarfod yn yr hydref i drafod amserlen ar gyfer y Cynllun Corfforaethol nesaf. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Hunanasesu a Chamau Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol** Ymgysylltu a data | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae nifer o ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu i gefnogi'r camau gweithredu hyn. Lansiwyd ein Harolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid: Sgwrs y Sir ym mis Awst a pharhaodd tan 10 Hydref. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol ac yn cyflwyno gwybodaeth werthfawr i ddefnyddwyr i lywio sut yr ydym ni'n cynllunio ymlaen llaw ac yn gwneud penderfyniadau. Cafodd canlyniadau'r arolwg diweddar eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Gallwn ni bellach gymryd golwg mwy cynhwysfawr ar y ffordd y mae ein Cyngor ni'n ymgysylltu a cheisio gwneud gwelliannau i'n fframwaith ymgysylltu a'n presenoldeb ar-lein (gan gynnwys sut yr ydym ni'n rhoi adborth i drigolion). Un rhan o hynny fydd sefydlu rhwydwaith mewnol o swyddogion allweddol sy'n meithrin cyswllt â chymunedau'n rheolaidd. Un o'r camau gweithredu ar gyfer 2026 i 2027 fydd datblygu Fframwaith Ymgysylltu wedi'i ddiweddaru ar gyfer staff, i gefnogi ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys egwyddorion ar gyfer llywodraethu arolygon da.<br>Yn olaf, er mwyn ategu ein Strategaeth Gwytnwch, rydym yn bwriadu ehangu ein gallu i gynnal gwaith ymchwil er mwyn darparu gwell data a gwybodaeth yn sail ar gyfer ein penderfyniadau. |
| Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn dilyn adolygiad o'n dull gweithredu, ym mis Medi cynhaliwyd dau Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth (Gwasanaeth yr Economi a Diwylliant; a Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau). Mae'r adolygiadau hyn yn gyfle pwysig i wasanaethau fyfyrio ar eu perfformiad, tynnu sylw at gyflawniadau a nodi meysydd i'w gwella. Maen nhw hefyd yn galluogi aelodau ac uwch reolwyr i adolygu gwybodaeth bwysig am berfformiad a risg, ac i gynnig her a chefnogaeth. Maen nhw'n rhan annatod o'n fframwaith rheoli perfformiad a'n dulliau hunanasesu parhaus. Mae'r adborth cynnar wedi bod yn gadarnhaol, ac mae'r aelodau'n ymgysylltu'n well â thrafodaethau gonest ac agored. Bydd camau gweithredu a nodwyd yn yr adolygiadau yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad (gweler y Camau Gwella isod). |
| Parc Masnach Mochdre | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae swyddogion perthnasol yn gweithio gyda chyfreithwyr allanol y Cyngor mewn cysylltiad â'r ymgyfreitha parhaus. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau yn ei gyfarfod ym mis Medi. |
| **Camau Gweithredu** | Gwyrdd | Rydym ni wedi archwilio'r cynnig ar gyfer model gwasanaeth canolog, sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf, i wella |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Hunanasesu:** Ymdrin â chwynion a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. | Ar y trywydd iawn | hygyrchedd, effeithlonrwydd a gwydnwch ar draws y sefydliad, gan fynd i'r afael â darpariaeth dameidiog a galw mawr a sicrhau ymgysylltiad digidol cryf. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys creu tîm amlddisgyblaethol, aml-sianel; ehangu platfform gov.Services a chyfrifon FyNghonwy; cydgrynhoi ardaloedd derbynfa; a defnyddio llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol ar gyfer cael cymorth digidol.<br><br>Sefydlwyd Siarter Cwsmeriaid a Fframwaith Safonau Gwasanaeth newydd i fodloni disgwyliadau o ran ansawdd a chysondeb, wedi'u hymgorffori drwy hyfforddiant a monitro staff. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cynllun Gweithredu - Dim Mynediad yn sicrhau bod pob unigolyn sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn gallu defnyddio technoleg, gan gyd-fynd â dyletswyddau cydraddoldeb a'r Cynllun Corfforaethol, trwy atal, integreiddio â gofal iechyd a chymdeithasol, cydweithio â phartneriaid, a chyd-ddylunio â phobl hŷn. Nod y ddwy fenter yw sicrhau dylunio gwasanaethau'n ddoethach, arbedion hirdymor, a phrofiad gwell i gwsmeriaid, wrth gyflawni ymrwymiadau cydymffurfio a chynhwysiant.<br><br>Bydd y Strategaeth Gwydnwch yn parhau i drawsnewid profiad y cwsmer er mwyn sicrhau bod gwasanaeth digidol 24/7 ar gael sy'n gyfartal i bawb, canoli cyswllt â chwsmeriaid a symleiddio prosesau er mwyn sicrhau gwell ymatebolrwydd. |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Gweithredu strwythurau llywodraethu argyfyngau sifil posibl diwygiedig. | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Cytunwyd ar strwythurau llywodraeth newydd. Bydd ein Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng yn cyfarfod ym mis Tachwedd, a bydd yr Is-grwpiau newydd yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd. |
| **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Gweithredu Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu diwygiedig | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | I gefnogi lansiad y Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu newydd a'r Canllawiau ategol i Reolwyr, trefnodd y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad hyfforddiant gloywi ar-lein ac yna digwyddiad dysgu pwrpasol wyneb yn wyneb ar gyfer y Fforwm Rheolwyr ym mis Medi. Cyflwynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol sesiwn ymarferol a diddorol a oedd yn trafod cynllunio'r gweithlu a chymhwyso offer cynllunio'r gweithlu. Mae'r camau nesaf yn cynnwys integreiddio Cynllunio'r Gweithlu o fewn ein cylch Cynllunio Gwasanaethau â gwasanaethau'n cael eu holi i |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| | | gyflwyno eu cynlluniau gweithredu'r gweithlu, yn ogystal ag adlewyrchiad o anghenion dysgu, erbyn Mawrth 31. |
| Adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Prosiectau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn adolygu ein Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn flynyddol. Cwblhawyd yr adolygiad ar gyfer 2025 i 2026 yn ddiweddar a chraffwyd ar fersiwn wedi'i diweddaru o'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac yna fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf. Dyma'r prif newidiadau i'r Fframwaith:<br>• Symleiddio strwythur Aelodaeth y Bwrdd.<br>• Gwella'r broses adrodd i'r Pwyllgor Craffu.<br>• Ymgysylltu â Fforymau Ardal.<br>• Parhau â'r Archwiliadau Iechyd (mae 4 wedi'u cynllunio ar gyfer 2025 i 2026).<br>• Cau Bwrdd Cyfleoedd Conwy.<br>Cyflwyno System Adrodd Dangosfwrdd Newydd. |
| Asesiad Perfformiad y Panel | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gwnaethom ni ofyn am fewnbwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai ar gwmpas ein Hasesiad Perfformiad Panel. Gwnaethom ni hefyd ymgynghori ag Undebau Llafur. Bydd y cwmpas terfynol a phenodiadau'r panel yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Hydref yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Yn y cyfamser, rydym ni'n cyfarfod yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi'r amserlen angenrheidiol ar waith ar gyfer y gwaith maes, ac i ddatblygu llyfrgell ddogfennau i'w rhannu ag aelodau o'r panel a phawb sy'n gysylltiedig cyn yr asesiad, a gynhelir rhwng 2 a 5 Rhagfyr. |

## 6.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

### 6.3.1. Cynllunio Corfforaethol

Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut yr ydym ni'n gosod ac yn gwneud trefniadau i gyflawni ein hamcanion strategol. Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 6.3.1. Y Cynllun Corfforaethol

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda'n gwasanaethau i ymgorffori Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol diwygiedig. Gwnaeth hyn ddarparu'r strwythur ar gyfer ein Hunanasesiad Perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn (gweler

y diweddariad isod). Y cam nesaf ar gyfer gwella'r wybodaeth yr ydym ni'n ei chasglu ynghylch ein hamcanion yw casglu adborth defnyddwyr am ein perfformiad. Roeddem ni'n falch o lansio ein Sgwrs Conwy: Arolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliad ym mis Awst. Bydd data o hyn yn helpu i gwblhau'r broses o driongli gwybodaeth am berfformiad yn erbyn canlyniadau ein Cynllun Corfforaethol.

### 6.3.2. Yr Uwch Dîm Arwain

Mae aelodaeth yr Uwch Dîm Arwain wedi'i diwygio o fis Medi. Bydd yr Uwch Dîm Arwain bellach yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol, a Phennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yn unig. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth eraill yn cael eu gwahodd i ddod i eitemau penodol ar y rhaglen.

### 6.3.3. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gymeradwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin. Yn ogystal â'r ddogfen yr oedd y Cod Llywodraethu Lleol a'r Fframwaith Llywodraethu. Mae'r dogfennau hyn yn ceisio rhoi sicrwydd o brosesau llywodraethu cadarn a chyflwyno'r materion â'r blaenoriaeth mwyaf sy'n cael eu rheoli gan ein Cyngor ni.  Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod ein trefniadau llywodraethu ni wedi ein cefnogi'n effeithiol drwy gyfnod o heriau parhaus, a chaniatáu i ni addasu a darparu gwasanaethau heb unrhyw broblemau â pharhad. Roedd yn cydnabod effaith barhaus pwysau chwyddiant a chynnydd mewn costau, sy'n arwain at bwysau a heriau ariannol sylweddol. Nodwyd bod capasiti a llwyth gwaith staff; y galw cynyddol am wasanaethau; recriwtio; a chynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol yn heriau sylweddol hefyd. Roedd y datganiad yn nodi'r camau gwella canlynol wedi'u hunanasesu:

- Cefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor drwy weithredu ein Cynllun Gweithredu Gwytnwch a'n Strategaeth Gwytnwch (gweler y diweddariad yng ngweithgareddau Nod 1).
- Adnewyddu ein Strategaeth Rheoli Asedau (gweler y diweddariad yng ngweithgareddau Nod 1).
- Parhau â'n hymdrechion i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau (gweler y diweddariad yng ngweithgareddau Nod 1).
- Gwella ein dull o ymgysylltu a gwybodaeth data (gweler y diweddariad mewn gweithgareddau llywodraethu atodol).

- Gweithredu strwythurau llywodraethu argyfyngau sifil posibl (gweler y diweddariad mewn gweithgareddau llywodraethu atodol).
- Cefnogi pob gwasanaeth yn weithredol i ddatblygu a gweithredu eu cynllun gweithlu (gweler y diweddariad mewn gweithgareddau llywodraethu atodol).
- Gweithio gyda phob gwasanaeth i ddatblygu amcanion Strategaeth Gynhwysol Conwy (gweler y diweddariad yng ngweithgareddau Nod 1).

Dilynwch y dolenni uchod i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu hyn, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn am y tro cyntaf. Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Awst.

### 6.3.4. Trefniadau Democrataidd

Yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai, gwnaeth y Cyngor ethol y Cynghorydd Sharon Doleman yn Gadeirydd, a'r Cynghorydd Mike Priestley yn Is-gadeirydd. Fodd bynnag, ym mis Awst penodwyd y Cynghorydd Mike Priestley yn Aelod Cabinet Isadeiledd, Cludiant a Chyfleusterau, ac yna cafodd y Cynghorydd Trystan Lewis ei ethol yn Is-gadeirydd. Penodwyd y Cynghorydd Michael Smith hefyd yn lle'r Cynghorydd Mike Priestly yn gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Economi a Lle. Penodwyd is-gadeiryddion Craffu hefyd ym mis Mehefin o fewn yr Economi a Lle, Addysg a Sgiliau, Cyllid ac Adnoddau, a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Bu'n rhaid ethol Is-gadeirydd newydd ar gyfer yr Economi a Lle ym mis Medi yn dilyn penodiad y Cynghorydd Hannah Fleet yn Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol integredig.

Ym mis Hydref 2019, cytunodd y Cyngor i ganiatáu i grŵp bach o gynrychiolwyr o Gyngor yr Ifanc rannu presenoldeb fel aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, heb hawliau pleidleisio. Yn dilyn cais diweddar gan Gyngor yr Ifanc, mae'r pwyllgorau craffu Economi a Lle, Cyllid ac Adnoddau, a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi cytuno ym mis Medi y dylid gwneud argymhelliad i'r Cyngor etholedig i'r pwyllgorau craffu sy'n weddill hefyd gyfethol aelodau Cyngor yr Ifanc heb hawliau pleidleisio. Bydd y Cyngor yn pleidleisio ar yr argymhelliad uchod yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

Ailbenodwyd Ian Whyte yn gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin, ac ailbenodwyd y Cynghorydd Stephen Price yn Is-gadeirydd ym mis Medi. Yn yr un cyfarfod, adolygwyd Cylch Gorchwyl y pwyllgor, a chafodd mân newidiadau eu gwneud a'u hargymell i'r Cyngor, i gydymffurfio'n well â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang

(Egwyddor 8 – Dan oruchwyliaeth y Bwrdd) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol. Adolygodd y Cyngor aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf hefyd, lle ailbenodwyd Gill Murgatroyd i'r Pwyllgor Safonau am yr ail dymor fel aelod annibynnol o'r panel.

Yn dilyn newidiadau yn aelodaeth grwpiau gwleidyddol, cafodd y Cyngor adroddiad ym mis Awst i adolygu ei gydbwysedd gwleidyddol a dyrannu seddi pwyllgor i grwpiau gwleidyddol. Penderfynwyd y byddai meintiau pwyllgorau yn aros yr un fath ac y byddai seddi'n cael eu dyrannu i grwpiau gwleidyddol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol. Cytunwyd hefyd ddyrannu seddi i'r Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd a'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru.

Yn ddiweddarach ym mis Medi, cyhoeddodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Charlie McCoubrey, a'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Emily Owen, y bydden nhw'n camu i lawr o'u swyddogaethau Cabinet ar Hydref 8, pan fydd Arweinydd newydd yn cael ei ethol mewn cyfarfod arbennig y Cyngor.

Ym mis Gorffennaf, yn rhan o'n hymdrechion i gefnogi trefniadau democrataidd, gwnaethom ni hysbysu trigolion am ein gwiriad blynyddol o'r gofrestr etholiadol, gan annog pobl i wirio eu manylion neu gallai olygu eu bod nhw mewn perygl o golli eu cyfle i bleidleisio ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Anogwyd y rhai sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar yn arbennig i wirio eu manylion. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cofrestru i bleidleisio fynd i www.gov.uk/register-to-vote.

### 6.3.2. Cynllunio Ariannol

Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a'n gwariant. Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.2.1. Rheoli'r Trysorlys

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cyflwynwyd Alldro Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024 i 2025 a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2025 i 2026 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nododd yr adroddiad fod benthyca wedi cynyddu £28.2 miliwn yn ystod 2024 i 2025 (o £203.3 miliwn i £231.5 miliwn); ac ar gyfer buddsoddiadau yr oedd cynnydd o £13 miliwn mewn buddsoddiadau (o £27.6 miliwn i £40.6 miliwn) yn ystod yr un cyfnod.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod tri mis cyntaf 2025 i 2026. Adroddwyd bod benthyca allanol wedi gostwng £20.9 miliwn (o £231.5 miliwn i £210.6 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin), a bod cynnydd o £8.4 miliwn mewn buddsoddiadau (o £40.6 miliwn i £49.0 miliwn) yn ystod yr un cyfnod.

### 6.3.2.2. Y Rhaglen Gyfalaf

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet ym mis Chwefror fod cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf yn £106.458 miliwn. Ar y cam hwnnw, cafodd ei broffilio rhwng gweithgarwch wedi'i gynllunio yn 2024 i 2025 (£38.969 miliwn) a gweithgarwch mewn blynyddoedd i ddod (£67.489 miliwn). Ym mis Awst, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet adroddiadau yn cyflwyno'r sefyllfa gyfalaf derfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2024 i 2025. Cytunwyd i gymeradwyo'r ychwanegiad net o £5.918 miliwn at raglen gyfalaf 2024 i 2025, a nodwyd mai'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2024 i 2025 oedd £39.828 miliwn. Rhagwelir y byddai £38.969 miliwn o'r gwariant yn lleihau rhwng 2024 a 2025 ac y byddai'r gweddill yn cael ei wario yn y blynyddoedd dilynol. O'r gyllideb a wariwyd, cytunwyd y byddai'r swm sy'n weddill o £68.957 miliwn yn cael ei gario ymlaen.

Cyflwynwyd adroddiad monitro chwarter un ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet hefyd, gan gymeradwyo'r ychwanegiadau net o £18.180 miliwn fel y'u rhestrir isod:

- Dyraniad Cyllid dan y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol i wella asedau priffyrdd lleol (gwerth £5.155 miliwn). Nid grant yw'r cyllid hwn, ond cyllid refeniw i gefnogi costau benthyca allanol y Cyngor, ac felly'r Cyngor fydd yn ysgwyddo'r risg o ran cyfraddau llog.
- Dyrannu amrywiaeth o arian grant allanol eraill ar gyfer cynlluniau penodol, gwerth £12.636 miliwn.
- Diwygiadau amrywiol i sawl cynllun arall a ariannir gan ein cyllid mewnol (cronfeydd cyfalaf yn bennaf), sydd â gwerth o £389,000.

### 6.3.2.3. Diddymu Dyledion

Yn ei gyfarfod ym mis Awst, cafodd y Cabinet adroddiad ar sefyllfa ddyledion Mân Anfoneb heb ei thalu am swm o £51,186.67. Gwnaeth hyn ddeillio o Orchard Live Limited yn penderfynu diddymu'r cwmni yn wirfoddol. Nodwyd, yn anffodus, fod busnesau wedi cael eu diddymu, a bod diwydrwydd dyladwy wedi'i gyflawni yn y gorffennol. Roedd

rheoliadau ariannol hefyd wedi cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i anfonebau gael eu codi o fewn 14 diwrnod ar ôl i’r digwyddiad gael ei gynnal. Nid oedd unrhyw golledion ariannol o bryniannau wrth y bar; gwnaeth incwm a’r Gwasanaethau Hamdden dalu’r ddyled. Ar ôl rhoi cynnig ar bob ffordd bosibl i adennill arian, cytunwyd i ddirymu’r ddyled.

#### 6.3.2.4. Cyflwyno Ffioedd Angori ar gyfer cychod masnachol

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad a wnaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Conwy i gyflwyno ffioedd angori ar gyfer pob cwch masnachol er mwyn cynhyrchu incwm i gynnal yr harbwr. Cytunwyd y dylid cyflwyno ffioedd ar lefel sy’n 50% o ffioedd hamdden yn 2025, ac ar lefel o 100% o 2026.

### 6.3.3. Rheoli Perfformiad

Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a’r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni’r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud gan fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o’r sefydliad a’n preswylwyr. Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.3.1. Hunanasesiad Perfformiad

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Hunanasesiad o Berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn i’r pwyllgor democrataidd ym mis Mehefin (Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, a’r Cabinet) cyn ei gymeradwyo’n derfynol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Yr adroddiad oedd y cyntaf i fod yn seiliedig ar y Cynllun Corfforaethol diwygiedig (a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror) a'i Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd, sydd â phwyslais newydd ar wybodaeth feincnodi. Nododd yr adroddiad dri cham gweithredu gwella ychwanegol, ac mae diweddariadau ar eu cyfer wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn (sydd wedi’u dynodi fel **Camau Gweithredu Hunanasesu**).

Rhan 1 o’n Hunanasesiad ar gyfer 2025 i 2026 yw’r adroddiad presennol hwn (sy'n ymdrin â’r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi), ac mae'n cael ei gyflwyno i ddemocratiaeth ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn rhan o’n hymdrech barhaus i sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn amserol. Yn yr un modd â’n hadroddiad blaenorol, mae cynnydd o ran ein gweithgaredd rheoleiddio wedi'i gynnwys yn atodiad 2, ac mae’n symleiddio ein hadroddiadau ar wybodaeth am berfformiad.

#### 6.3.3.2. Adroddiadau Rheoleiddio Allanol

Mae ein proses yn ei gwneud yn ofynnol i bob adroddiad rheoleiddio allanol gael ei ystyried gan bwyllgor craffu perthnasol cyn ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w monitro. Ym mis Mai, cyflwynwyd adroddiadau diweddaraf Archwilio Cymru i Lywodraethu ac Archwilio, sef astudiaeth genedlaethol ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (nad oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion lleol), a chrynodeb blynyddol o'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yng Nghonwy. Adroddwyd ar y rhain yn flaenorol yn ein Hunanasesiad o Berfformiad.

Cafodd y pwyllgor y Cynllun Archwilio blynyddol ar gyfer Archwilio Cymru hefyd, a fydd yn cynnwys archwiliad ariannol, archwiliad perfformiad ynghylch pwysau ar y gweithlu mewn llywodraeth leol, defnyddio data wrth osod cyllidebau ar gyfer gwasanaethau a arweinir gan alw, ac adolygiad o seiberddiogelwch.

#### 6.3.3.3. Archwilio Mewnol

Ym mis Mai, cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhoddwyd 29 o farnau archwilio yn ystod y flwyddyn, a nodwyd bod 18 yn Sicrwydd Uchel, saith yn Foddhaol, a phedair yn Sicrwydd Cyfyngedig. Ni chawsom adroddiadau â sgôr Dim Sicrwydd. Roedd yr adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig yn ymwneud â:

- Seibrwytnwch
- Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru
- Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol
- Undeb Rygbi Cymru - Gemau Rygbi Gogledd Cymru

Ers mis Ebrill, mae Archwilio Mewnol wedi bod yn gweithio i safonau archwilio mewnol newydd. Mae’r rhain yn gyfuniad o’r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a’r Nodyn Cymhwyso - y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a’r Cod Ymarfer ar Lywodraethu Archwilio Mewnol. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddaru ar gyfer 2025 i 2026, ac yn y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd ill dau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin. Mae'r strategaeth yn ymdrin â’r cyfnod rhwng 2025 a 2028 ac yn nodi pedwar amcan a gefnogir gan Gynllun Blynyddol a mesuryddion perfformiad ar gyfer 2025 i 2026.

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol ychwanegol i aelodau ym mis Medi a nodwyd bod y gwasanaeth wedi cwblhau 10 archwiliad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gan gwblhau 100% yn yr amser a gynlluniwyd yn erbyn targed perfformiad heriol o 75%. Cynhaliwyd pedwar archwiliad dilynol. Roedd tri argymhelliad sylweddol na chafodd eu gweithredu yn yr archwiliad dilynol o'r Tai Amlfeddiannaeth ac ystyriwyd bod un argymhelliad sylweddol yn yr archwiliadau dilynol ar Seiberwydnwch a Diogelwch Gwybodaeth yn waith sydd ar y gweill.

### 6.3.3.4. Adroddiadau Pwyllgor Blynyddol

Cafodd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf (yn dilyn mewnbwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mai)  Roedd yr adroddiad yn myfyrio ar y flwyddyn heriol ac yn cydnabod yr ymdrechion i ddarparu gwasanaeth cadarnhaol i bob preswylydd yn ystod cyfnodau anodd, ac yn benodol y pwyslais ar ofal cymdeithasol, digartrefedd a chyllid. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gymharol hyderus bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli'r heriau a'r risgiau sydd o'u blaenau, er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol a'r galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau staff.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf, cafodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025 y Pwyllgor Safonau hefyd. Nodwyd bod y pwyllgor wedi parhau â'i raglen ar gyfer ymweliadau gan aelodau annibynnol â chyfarfodydd cynghorau tref a chymuned; wedi ymdrin ag wyth cais am oddefeb; wedi adolygu cofrestrau buddiannau'r aelodau a'r gofrestr rhoddion a lletygarwch; wedi ystyried cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon; ac wedi cyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau i drafod eu cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau.

Ym mis Medi, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau yr Adroddiad Craffu Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025, ynghyd ag adborth o'r adolygiad o'n swyddogaeth trosolwg a chraffu a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024 a mis Mai 2025. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos y cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad lleol:

- Mae lefelau presenoldeb wedi gostwng rhywfaint o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae'r cyfartaledd presenoldeb yn 81% o gymharu â chyfartaledd o 86% yn 2023 i 2024.
- Cynhaliwyd 36 o gyfarfodydd y pwyllgor craffu yn ystod 2024 i 2025; o'i gymharu â 42 yn 2023 i 2024. Roedd hyn o ganlyniad i'r cyfnod cyn yr etholiad pan gafodd nifer o gyfarfodydd eu canslo.

Nododd yr adroddiad bod holl argymhellion y Gweithgor Craffu wedi'u rhoi ar waith, ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn adroddiad blynyddol 2025 i 2026. Er y nodwyd bod anghydbwysedd yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar draws y gwahanol bwyllgorau, roedd gwaith yn mynd rhagddo i osod rhaglenni gwaith blynyddol.

### 6.3.3.5. Canmoliaethau a Chwynion

Ym mis Medi, ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr Adroddiad Blynyddol ar Ganmoliaeth a Chwynion Corfforaethol, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024 i 2025. Cafodd y pwyllgor hefyd Lythyr Blynyddol 2024 i 2025 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd yn galonogol nodi o Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod Conwy yn perfformio'n well na chyfartaledd Cynghorau Cymru o ran cwynion a gafwyd fesul 1,000 o drigolion. Roedd gan Gonwy gyfradd o 0.33, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 0.45 fesul 1,000 o drigolion ar gyfer 2024 i 2025, gan olygu mai Cyngor Conwy yw'r 5ed gorau yng Nghymru.

Yn ystod 2024 i 2025 cawsom ni 353 o gwynion, cafodd 19 ohonyn nhw eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol, a chafodd 20 ohonynt eu cario drosodd i 2024 i 2025. Cadarnhawyd 138 o'r cwynion hyn (wedi cynyddu ychydig o 135 yn 2023 i 2024), ac ymdriniwyd â 58% o gwynion Cam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith (64% yn 2023 i 2024) a 51% o gwynion Cam 2 o fewn 20 diwrnod gwaith (47% yn 2023 i 2024). Nodwyd bod capasiti staff yn broblem, a'n bod ni'n ystyried system wahanol ar gyfer cofnodi a monitro cynnydd.

Caiff cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol eu hymdrin drwy broses ddeddfwriaethol ar wahân. Yn ystod 2024 i 2025, cawsom ni 24 o gwynion ffurfiol (Cam 1 a 2). Cafodd 7 cwyn eu huwchgyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (o'i gymharu â 14 yn 2023 i 2024), a ni ymchwiliwyd ymhell i 6 ohonynt, ac ymdriniwyd ag 1 drwy ddatrysiad cynnar. Cafwyd 156 o ganmoliaethau yn ystod 2024 i 2025, gostyngiad bach o 33 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'n dal i fod yn llawer uwch na nifer y cwynion.

Cawsom ni 292 o ganmoliaethau ychwanegol yn ystod 2024 i 25 ledled y Cyngor, sy'n gynnydd o 46 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd staff Ffit Conwy eu canmol am eu cefnogaeth ym Mharc Eirias pan fyrstiodd prif bibell ddŵr Dolgarrog ym mis Ionawr 2025, a

chydnabuwyd casglwyr deunyddiau ailgylchu am eu hymdrechion wrth gasglu deunyddiau ailgylchu.

### 6.3.3.6. Y Gymraeg

Ym mis Ebrill, cydnabu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau lwyddiant ein cynllun Cymraeg Gwaith, gan nodi'r canlyniadau arholiadau rhagorol ac ystafell ddosbarth bwrpasol a fydd ar gael yng Nghoed Pella. Mae Cynllun Cymraeg Gwaith, a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i gryfhau sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn ystod 2024 i 2025, yr oedd 78 o aelodau o staff ac 1 cynghorydd yn rhan o'r cynllun.

Ym mis Mai, croesawodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, a nododd sut y gwnaeth ein Cyngor ni gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2024 i 2025. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'n darpariaeth Gymraeg sydd hefyd yn cynnwys llawer o strategaethau eraill, fel Mwy na Geiriau, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'n Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg – Ein Llais Cymraeg. Mae ein mentrau wedi gweld cynnydd yn nifer y cyfleoedd i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i'w gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ym mywyd bob dydd, ac mae ein llwyddiannau'n mynd o nerth i nerth. Cymeradwyodd y Cabinet y gwaith a wnaed i annog pobl i siarad Cymraeg wrth iddo argymell cyhoeddi'r adroddiad.

### 6.3.3.7. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024 i 2025

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Medi. Mae'r adroddiad yn nodi ein cynnydd o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, sy'n rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant, atal, partneriaeth a lles. Un maes y gwnaethom ni ganolbwyntio arno oedd ehangu hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol, ac integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg ymhellach. Mae'r adroddiad yn manylu ar welliannau mewn gofal i blant ac oedolion, gan gynnwys lansio cyfleusterau preswyl newydd, gwell cefnogaeth iechyd meddwl, a mentrau i hyrwyddo darpariaeth Gymraeg. Mae hefyd yn mynd i'r afael â heriau parhaus y gweithlu a phwysau ariannol sylweddol. Rydym ni'n gobeithio bod yr adroddiad yn adlewyrchu dull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gofal cymdeithasol yng Nghonwy, sydd â'r nod o feithrin cydraddoldeb, gwydnwch a lles cymunedol.

## 6.3.4. Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull yr ydym ni wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 6.3.4.1. Adolygiad o'r Risg Gorfforaethol

Cynhaliodd y Tîm Perfformiad a Gwella adolygiad cynhwysfawr o'n dull o ymdrin â risgiau a materion corfforaethol a chyflwynodd y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ddiwygiedig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin. Arweiniodd gasgliadau'r adolygiad at y canlynol:

- Symleiddio risgiau a materion presennol i gefnogi trafodaethau strategol yn well.
- Nodi rhai bylchau yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- Egluro'r gwahaniaeth rhwng risgiau a phroblemau.
- Gwella trosolwg strategol o'r gofrestr.
- Annog mwy o gysondeb wrth sgorio'r risgiau.

Cymeradwyodd y Cabinet y dull newydd ym mis Awst.  Bydd cynnydd ar y gofrestr risgiau gorfforaethol, ynghyd â'r Fframwaith Rheoli Risgiau diwygiedig, yn cael ei adrodd drwy ddemocratiaeth yn ystod yr hydref.

## 6.3.5. Cynllunio'r Gweithlu

Cynllunio'r gweithlu yw'r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau - rŵan ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 6.3.5.1. Archwiliad Cyflog Cyfartal

Ym mis Ebrill, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, cymeradwyodd y Cabinet yr Archwiliad Cyflog Cyfartal ar gyfer 2018 i 2023. Mae hyn yn rhoi dadansoddiad o gyflog wedi'i rannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac oedran, gan ystyried cyflog cyfartal a bylchau cyflog. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi, yn gyffredinol, y dylai gwahaniaethau o 5% neu fwy ysgogi ymchwiliad ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod pob dyfarniad cyflog chwyddiannol

blynyddol yn cael ei drafod ar lefel genedlaethol, nid gan y Cyngor. Mae uchafbwyntiau'r archwiliad yn cynnwys yr isod:

- Mae'r Bwlch Cyflog Rhywedd yn y Cyngor wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ostwng i 4.18% yn 2022 i 2023 (gan ffafrio gweithwyr gwrywaidd). Mae hyn wedi parhau i ostwng yn 2023 i 2024 i 2.79%.
- Mae'r Bwlch Cyflog ar sail Anabledd wedi bod yn bennaf o blaid staff anabl dros y bum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r data'n brin gan fod gweithwyr anabl fel arfer yn dewis peidio â datgan anabledd.
- Mae'r Bwlch Cyflog Ethnigrwydd hefyd wedi amrywio dros y bum mlynedd ddiwethaf. Roedd yn 8.4% yn 2022 i 2023, sydd uwchben y trothwy ar gyfer ymchwiliad a ffocws pellach. Mae ein cynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth yn ein Strategaeth Conwy Gynhwysol yn nodi nifer o gamau gweithredu yr ydym ni'n bwriadu eu cymryd yn gysylltiedig â chynhwysiant ethnig.
- Mae'r Bwlch Cyflog ar sail Oedran wedi parhau o fewn y trothwy o 5%. Yn 2022 i 2023 gwelsom ni fwlch cyflog bach o 2.94% yn ffafrio unigolion dan 50 oed, a gallai hyn fod yn rhannol yn sgil cyfleoedd ymddeol hyblyg, fel gostwng oriau gwaith neu raddfa.

### 6.3.5.2. Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn

Roeddem ni wrth ein bodd yn cael cadw'r Wobr Lefel Aur dan y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, sy'n cydnabod cyflogwyr sydd wedi rhoi cefnogaeth eithriadol i gymuned y lluoedd arfog ac amddiffyn drwy fynd y tu hwnt i'r gofyn o ran addewidion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd y cyflawniad hwn ei gydnabod mewn digwyddiad yn Venue Cymru ym mis Ebrill.

### 6.3.5.3. Polisi Absenoldeb Gofal Newyddenedigol

Mae'r Polisi Gofal Newyddenedigol newydd wedi'i gyflwyno yn unol â Deddf Gofal Newyddenedigol (Absenoldeb a Thâl) 2023, a ddaeth i rym ym mis Ebrill eleni. Mae'r polisi a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin yn rhoi absenoldeb a thâl ychwanegol i rieni pan fydd angen gofal newyddenedigol ar eu babi.

#### 6.3.5.4. Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Dros Dro

Ym mis Gorffennaf, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu a sefydlu'r Ddarpariaeth Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Dros Dro. Lansiwyd hwn ym mis Rhagfyr 2023, a chafodd ei roi ar waith yn ystod y cyfnod tan 31 Mawrth, 2024. Yn dilyn 12 mis llawn o wasanaeth yn ystod 2024 i 2025, adroddwyd bod cyflwyno'r fframwaith ar gyfer ein gwasanaethau corfforaethol wedi arwain at fwy o reolaeth, cysondeb, cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth o weithwyr asiantaeth. Gofynnodd y pwyllgor i adroddiad ychwanegol gael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol yn gwerthuso costau cyflogi gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro mewn ysgolion ar gyfer 2024 i 2025.

### 6.3.6. Rheoli Asedau

Mae’r term asedau yn cyfeirio at ein rheolaeth o bortffolio’r ystâd (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy’n eiddo i ni/neu’n cael eu rheoli gennym) ac asedau digidol.  Isod mae diweddariadau ychwanegol ar lywodraethu ein hasedau.

#### 6.3.6.1. Trosglwyddo Asedau

Rydym wedi parhau i ddangos dull rhagweithiol o reoli a throsglwyddo ein hasedau mewn partneriaeth â'n cymunedau. Ym mis Mai, cymeradwyodd y Cabinet waredu tir yn uniongyrchol ar Fferm Plas Newydd 1, Llanfair Talhaearn. Ym mis Mai hefyd, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau ar gyfer hawddfraint arfaethedig ar Bromenâd Pensarn. Ym mis Gorffennaf rhoddwyd cymeradwyaeth i waredu tir amaethyddol yn Henfryn, Groes, i'r tenant, yn dilyn trafodaethau ychwanegol â nhw am orswm, ac ar delerau ac amodau a gymeradwywyd gan Brisiwr y Sir a Rheolwr Asedau.

#### 6.3.6.2. Polisi Cadwraeth Ddigidol

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, gwnaeth y Cabinet gymeradwyo’r Polisi Cadwraeth Ddigidol Gorfforaeth ym mis Mai. Mae’r polisi newydd hwn yn nodi’r egwyddorion y bydd yn arwain ein proses o weithredu’r gadwraeth ddigidol, a rheoli’r risg nad yw dogfennau digidol corfforaethol y mae angen eu diogelu yn cael eu colli. Y nod yw sicrhau bod pob cofnod digidol â chyfnodau cadw o 20 mlynedd neu fwy, neu gofnodion y mae angen eu cadw’n barhaol yn ddibynadwy, yn ddilys, yn ddiogel ac yn hygyrch cyhyd ag y byddan nhw eu hangen. Gwnaeth yr Aelodau

groesawu'r Polisi Cadwraeth Ddigidol Gorfforaethol, gan ei bod yn hanfodol bwysig, fel ceidwaid gwybodaeth sy'n ymwneud â thir ac eiddo, i'r wybodaeth gael ei diogelu.

### 6.3.7. Caffael

Caffael yw'r broses y mae cynghorau yn ei defnyddio i fodloni ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.  Isod mae camau gwella ychwanegol a nodwyd i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

#### 6.3.7.1. Contractau'r Priffyrdd

Yn ei gyfarfod ym mis Mai, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo cyllid ychwanegol o £5 miliwn ar gyfer Atgyweirio Ffyrdd dros y 2 flynedd nesaf. Ym mis Mehefin, dyfarnodd y Cabinet y contract ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Trin Arwynebau 2025 i 2026, ac ym mis Gorffennaf, dyfarnodd y Cabinet y contract ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Rhoi Wyneb Newydd ar Ffyrdd 2025 i 2026.

#### 6.3.7.2. Y Strategaeth Comisiynu Lleoliadau

Ym mis Ebrill, cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adroddiad ar ein Strategaeth Comisiynu Lleoliadau ar gyfer 2024 i 2027. Mae'r Strategaeth yn nodi dull trawsnewidiol o ran y ffordd yr ydym ni'n bodloni ein dyletswydd statudol i sicrhau bod digon o lety priodol ar gael i bobl ifanc a phlant sy'n derbyn gofal. Yn ganolog i'r strategaeth mae cyd-fynd â Rhaglen Dileu Elw Llywodraeth Cymru, sy'n gorchymyn symud oddi wrth darparwyr allanol sy'n cael eu gyrru gan elw tuag at ofal nid er elw sy'n cael ei ddarparu'n lleol erbyn 2030. Mae hyn yn nodi newid sylweddol o ddibynnu ar leoliadau annibynnol preswyl yn y gorffennol ac yn anelu at ail-gydbwyso'r farchnad drwy ddatblygu'r ddarpariaeth fewnol, fel cartrefi gofal newydd a chanolfannau asesu. Mae'r strategaeth yn bwysig gan ei bod yn ceisio gwella canlyniadau drwy leoli plant yn agosach i'w cymunedau, gan wella lles emosiynol, diogelu a pharhad gofal. Mae hefyd yn mynd i'r afael â risgiau fel prinder gweithwyr a phwysau ariannol, gan hyrwyddo cydweithio a chynaliadwyedd drwy bartneriaethau cryf â darparwyr sydd wedi ymrwymo i ofal hirdymor sy'n sicrhau gwerth am arian.

# 7. Camau Gwella

Trwy gydol y penodau uchod yn yr adroddiad hwn, rydym ni wedi cyflwyno naratif ar gamau gwella yr ydym ni'n gweithio arnynt. Byddwn yn parhau i weithio ar y rhain dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth yr ydym yn eu hwynebu. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd yn y meysydd hynny trwy rifynnau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol; yn ogystal â thrwy ein proses adrodd ar risgiau corfforaethol sy'n cynnwys y meysydd mwyaf sylweddol o bwysau sydd arnom ac yn cofnodi'r camau yr ydym yn eu cymryd.

## 7.1. Wedi'u Nodi Drwy'r Adroddiad Hwn

Mae'r camau gwella ychwanegol canlynol wedi'u nodi trwy gynhyrchu'r adroddiad hwn:

1. Datblygu Fframwaith Ymgysylltu wedi'i ddiweddaru i gefnogi ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.

2. Ymchwilio i ragor o fesurau yn ymwneud â diogelu.

3. Gwella'r broses o gasglu data pan fydd aelodau yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gwella a nodwyd yn flaenorol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn uchod.

## 7.2. Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth

Dechreuodd ein rhaglen flynyddol o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth wedi'u diwygio ym mis Medi, a gwnaethom ni gynnal adolygiadau ar gyfer Gwasanaeth yr Economi a Diwylliant, a'r Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau lle cytunwyd ar y camau gweithredu allweddol canlynol:

### 7.2.1. Economi a Diwylliant

1. Y gwasanaeth i adolygu cynnwys Cofrestr Risg y Gwasanaeth i adlewyrchu'r ymarfer SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) diweddar a'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ddiwygiedig.

### 7.2.2. Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

1. Y gwasanaeth i adolygu ymarferion contractau’r gorffennol i asesu gwerth am arian a pharhau i gymhwyso’r hyn a ddysgwyd ar gyfer contractau yn y dyfodol.

2. Y gwasanaeth i fynd ar ôl yr ymholiad yn ymwneud â mesuryddion parcio wedi’u pweru gan ynni solar nad ydynt yn gweithio yn Llandrillo-yn-Rhos.

3. Y gwasanaeth i adolygu cynnwys Cofrestr Risg y Gwasanaeth i adlewyrchu’r ymarfer SWOT diweddar a’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol wedi’i diweddaru.

Yn yr un modd â Chamau Gwella, bydd y rhain yn cael eu datblygu yng nghynlluniau’r gwasanaeth a’u monitro drwy’r adroddiadau Hunanasesu Perfformiad yn y dyfodol.

## 8. Cloi

Yn dilyn hunanwerthusiad cynhwysfawr o'n perfformiad a'n penderfyniadau democrataidd, rydym ni’n falch o gadarnhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn effeithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol, ac mae gennym drefniadau cadarn ar waith i sicrhau perfformiad uchel. Nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at ein cyflawniadau dros y chwe mis diwethaf, gan ddangos ein hymrwymiad i gyflawni ein hamcanion a'n swyddogaethau allweddol, er gwaethaf yr amodau ariannol heriol. Wrth i ni gloi'r adroddiad hwn, rydym ni’n estyn ein gwerthfawrogiad i'n staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled wrth ddarparu gwasanaethau eithriadol i'n cymunedau.